**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - P/LG/0016/16

Ann Jones AC/AM
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
CF99 1NA

8 Chwefror 2016

Annwyl Ann

Ar ôl i mi ddod i'r Pwyllgor ar 14 Hydref 2015, gofynnwyd i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch trafodaethau gyda'r Comisiynydd Plant ynglŷn â chyfleoedd iddi hi gael cymryd rhan gynnar yn y broses o ddatblygu polisïau. Ysgrifennais atoch ar 2 Tachwedd i roi gwybod i chi y byddwn yn cwrdd â'r Comisiynydd i drafod hyn, ynghyd â phryd a sut y byddem yn darparu ymateb terfynol, llawn i adolygiad Dr Shooter.

Ers hynny, rwyf wedi cwrdd â'r Comisiynydd, ac mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda'i swyddfa hi hefyd, er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw dyledus.

O safbwynt y Llywodraeth, rydym yn croesawu'r ffaith bod swyddfa'r Comisiynydd wedi cyfrannu'n gynnar i'r broses ac rydym yn annog hynny drwy ein Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant. Mae sawl enghraifft o gynnwys swyddfa'r Comisiynydd yn gynnar mewn trafodaethau ac rwy'n credu bod hyn yn llesol i ddeddfwriaeth a pholisïau. Wrth drafod gyda'r Comisiynydd, mynegodd y byddai'n hapus i ddarparu ei hymateb ei hun i'r Pwyllgor ar y mater hwn.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi gwybod i chi ein bod wedi cyhoeddi ein hymateb terfynol, llawn i adolygiad Dr Shooter ac mae ar gael ar ein gwefan. Amgaeir copi er gwybodaeth i chi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
English Enquiry Line0300 0603300
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, hoffwn sôn am ein hymateb i adroddiad Cymru Ifanc a oedd yn tynnu sylw Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn at bryderon pobl ifanc. Mae clywed barn ac argymhellion pobl ifanc yn uniongyrchol o werth amhrisiadwy ac rwyf wedi ymateb gan fod yr adroddiad hwn yn haeddu ymateb llawn. Mae copi wedi ei hatodi.



**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

**Chwefror 2016**

**Rhagair gan Lesley Griffiths, AC,
y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

Gall Cymru ymfalchïo yn y ffaith ei bod ar flaen y gad o ran hyrwyddo ac amddiffyn hawliau plant. Ynghyd â rhoi Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ar waith, mae rôl a swyddogaethau'r Comisiynydd Plant yn elfen hanfodol arall yn y broses o roi hawliau plant a phobl ifanc Cymru ar waith yn effeithiol a'u hamddiffyn.

Wedi galwadau di-rif gan y Comisiynydd Plant ar y pryd am adolygiad annibynnol, comisiynwyd Dr Mike Shooter i ymgymryd â'r gwaith yn 2014.

Ym mis Rhagfyr 2014, cyhoeddodd Dr Shooter ei adroddiad ynghyd ag argymhellion a oedd yn ceisio sicrhau bod gan Gymru Gomisiynydd Plant â rôl cyn gryfed ac mor effeithiol â phosibl.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein hymateb terfynol i'r argymhellion a wnaed ar gyfer Llywodraeth Cymru a'n cynnydd o ran ymdrin â nhw. Mae'r Comisiynydd Plant wedi cyhoeddi ei hymateb ei hun i'r argymhellion a gynigiwyd iddi hi eu hystyried. Mae hwn ar gael ar ei gwefan.

Roedd argymhellion hefyd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac rwyf wedi ysgrifennu at y Llywydd i dynnu ei sylw atynt.

Rydym wedi cydweithio â'r Comisiynydd Plant wrth ystyried argymhellion Dr Shooter a thrwy wneud hynny, rydym yn teimlo bod yr adolygiad a'i argymhellion wedi caniatau trafodaeth agored a gonest. Hoffwn ddiolch i'r Comisiynydd a'i swyddfa am ei gwaith parhaus yn ymateb i'r adolygiad mewn modd adeiladol ac rwy'n credu y bydd y newidiadau yn ei chynorthwyo yn ystod ei thymor fel Comisiynydd.





**<u>Ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o Rôl a Swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru</u>**

***Cynnwys***


1. Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ................................................ 4

   A. Yn ymwneud â CCUHP ........................................................................ 4

   B. Yn ymwneud â deddfwriaeth ................................................................ 6

   C. Yn ymwneud â chraffu ac atebolrwydd ................................................ 7

   D. Yn ymwneud ag effeithlonrwydd, gwerth am arian a chylch gorchwyl 9

   E. Yn ymwneud â phenodi a gweithdrefnau arian ................................ 11

2. Argymhellion ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru .................................... 13

3. Argymhellion yn ymwneud yn gyfan gwbl â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. 15

## 1. Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

### A. Yn ymwneud â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth genedlaethol newydd gynhwysfawr ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant. Dylai cynnwys CCUHP a gwaith Comisiynydd Plant Cymru fod yn rhan o hyfforddiant athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ym maes iechyd ac unrhyw bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Dylai fod yn rhan orfodol o gwricwlwm ysgolion.

- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ei hymrwymiad i egwyddor cyfranogaeth ymhellach, drwy ei gwaith ei hun. Dylai'r Comisiynydd barhau i'w dwyn i gyfrif am yr ymrwymiad hwn.

Rydym wedi ailedrych ar ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant ac rydym wedi gweithio gyda'r Comisiynydd Plant, sydd hefyd â dyletswydd i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant, a Plant yng Nghymru i sicrhau ein bod yn cynyddu ein hadnoddau a'n cyfleoedd i weithio ar y cyd i'r eithaf.

Rydym wedi mabwysiadu nifer o ddulliau ac ymgyrchoedd, gan gynnwys ymgyrch ar gyfer rhieni, gwarcheidwaid a phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Defnyddiwyd sawl cyfrwng - hysbysebion ar Google ac ar fysiau, hysbysebion yn y Primary Times yn ardal Caerdydd a Chasnewydd a hysbyseb radio a fydd yn cael ei ddarlledu ar orsafoedd lleol a chymunedol ledled Cymru. Rydym yn dosbarthu deunyddiau marchnata'n eang ar gyfer gwahanol oedrannau ac yn cefnogi gweithwyr lleol i gynyddu ymwybyddiaeth. Rydym yn defnyddio Facebook, gwefannau a thaflenni ar gyfer rhieni yn ogystal â phlant a phobl ifanc, ac rydym wedi datblygu ap yn ogystal ag 'wythnos noddi ieuenctid' ar S4C.

Rydym hefyd wedi cytundebu sefydliadau allanol i gyflwyno hyfforddiant ynglŷn â CCUHP, wedi'i deilwra'n arbennig, i bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn fwy diweddar, rydym wedi datblygu strategaeth hyfforddi a fydd yn cael ei chyflwyno i 9 sector penodol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd. O ganlyniad, bydd ymwybyddiaeth o CCUHP yn cynyddu ac felly hefyd ei effaith ar y sectorau dan sylw. Bydd gweithio mewn partneriaeth gyda chynrychiolwyr y sectorau i ddatblygu'r adnoddau nid yn unig yn darparu deunydd sy'n addas i'w ddiben ac sy'n gwella profiad y rhai sy'n cymryd rhan, ond bydd hefyd yn rhoi hygrededd i'r adnoddau. Rydym wedi trafod ein cynnig gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys swyddfa'r Comisiynydd a Plant yng Nghymru. Maen nhw wedi mynegi eu cefnogaeth.

Rydym yn parhau i fod yn hollol benderfynol o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfrannu, yn lleol ac yn genedlaethol, ac rydym wedi dyfarnu cyllid i Cymru Ifanc/Young Wales am 3 blynedd.

Lansiwyd Cymru Ifanc/Young Wales ym mis Mawrth 2015 fel llwyfan genedlaethol, annibynnol i alluogi plant a phobl ifanc i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru a chael llais ynddo. Ei nod yw galluogi miloedd o blant a phobl ifanc ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sydd ar gyrion cymdeithas, yn byw mewn tlodi, wedi'u hallgau neu'n byw o dan amgylchiadau heriol, i gael rhoi eu barn a chael dylanwadu ar ein gwaith. Maen nhw'n gweithio gyda grwpiau ieuenctid a oedd eisoes yn bod i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisïau a rhaglenni. Mae Cymru Ifanc hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd plant a phobl ifanc sydd ar gyrion cymdeithas, yn swil, dan anfantais, yn ddihyder, neu'n byw o'r neilltu, gan roi'r cyfle iddynt hwythau leisio'u barn a chymryd rhan hefyd.

Fel rhan o Cymru Ifanc, mae pobl ifanc yn penderfynu beth yw'r blaenoriaethau ac yn pennu natur y gwaith drwy grwpiau llywio sy'n cynnwys croestoriad o bobl ifanc o grwpiau sydd ar gyrion cymdeithas ac o grwpiau o brif ffrwd cymdeithas. Er enghraifft, bu Cymru Ifanc yn weithgar iawn ym mis Tachwedd 2015 yn nodi wythnos gwrthfwlio gan gysylltu ag asiantaethau allweddol ym maes diogelwch plant ar-lein a gweithio gydag ymgyrch Byw Heb Ofn i hyrwyddo cydberthnasoedd iach. Mae Cymru Ifanc hefyd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Mae ein hymrwymiad i hyrwyddo cymryd rhan ymhlith plant a phobl ifanc yn parhau i gryfhau mewn sawl ffordd. Yn 2015, pasiwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i ystyried yr effaith y gallai eu penderfyniadau ei chael ar bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae disgwyl i bob Awdurdod Lleol gael Fforwm Ieuenctid Lleol ac i fod â gwybodaeth ar gael i blant a phobl ifanc ynghylch sut i gymryd rhan ac i gyfrannu petaen nhw'n dymuno gwneud hynny, a bod trefniadau ar waith ganddyn nhw i hwyluso hyn. Mae Gweinidogion wedi cyhoeddi canllawiau clir ynghylch yr hyn y dylid ei wneud a sut i fynd ati.

Mae hefyd angen ystyried y gwaith cadarnhaol o ran ymgysylltu â phobl ifanc sy'n cael ei ddatblygu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym yn hapus iawn â'i ymrwymiad cyhoeddus ynglŷn â phobl ifanc yn dwyn Llywodraeth Cymru ac eraill i gyfrif, a'i ymrwymiad i wrando ar eu barn ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw a'i werthfawrogi - a hynny yng nghalon Democratiaeth yng Nghymru.

*B. Yn ymwneud â deddfwriaeth.*

- Dylai cefndir cyfreithiol Comisiynydd Plant Cymru gael ei atgyfnerthu a'i symleiddio mewn un darn o ddeddfwriaeth Gymreig. Dylai'r ddeddfwriaeth hon wahaniaethu'n fwy eglur rhwng prif nodau, swyddogaethau, pwerau, dyletswyddau a chylchoedd gorchwyl y Comisiynydd.
- Dylid ymchwilio i gael agwedd fwy cyson tuag at Gomisiynwyr yng Nghymru, eu diben, cyllid, atebolrwydd a threfn lywodraethu. Gellid seilio hyn ar un Ddeddf ac fe ddylid ymchwilio i'r posibilrwydd hwn.
- Dylid archwilio'r posibilrwydd o un Ddeddf yn ymwneud â'r holl Gomisiynwyr ac Ombwdsmyn yng Nghymru.
- Dylid newid y teitl i Gomisiynydd Plant a Phobl Ifanc Cymru.

Cyn ymroi i greu deddf newydd, byddai angen ein hargyhoeddi bod hynny'n ddymunol, yn angenrheidiol ac yn ymarferol. Ar hyn o bryd, rydym o'r farn bod rolau, swyddogaethau, pwerau a chylch gorchwyl y Comisiynydd eisoes wedi'u diffinio'n eglur yn y ddeddfwriaeth bresennol. Nid yw'n eglur beth fyddai ffurf unrhyw ddeddfwriaeth newydd nac i ba raddau y byddai dim ond yn diwygio'r fframweithiau cyfreithiol presennol sy'n llywodraethu'r gwahanol Gomisiynwyr. Nid yw atgyfnerthu neu 'dwtio' deddfwriaeth sydd eisoes yn bod yn rheswm digonol ohono'i hun i ddeddfu o'r newydd. Byddai gofyn defnyddio adnoddau sylweddol i fynd â deddfwriaeth o'r fath drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Er ein bod yn deall rhesymeg cael mwy o gysondeb a chydlyniant rhwng Comisiynwyr, nid ydym wedi'n hargyhoeddi hyd yn hyn o'r angen am un darn o ddeddfwriaeth sy'n diffinio rolau a diben pob Comisiynydd, na bod angen diwygio deddfwriaeth bresennol er mwyn cynyddu cysondeb. Mae'n werth cofio bod llawer o'r gwahaniaethau rhwng y Comisiynwyr yn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn eu rolau a'u swyddogaethau. Mae'r rheinny'n perthyn yn benodol i'w cylchoedd gorchwyl unigol ac oherwydd hynny dylid eu cadw. Mae swyddogion felly wedi ystyried dulliau anneddfwriaethol o wella cysondeb rhwng Comisiynwyr, yn unol â'r argymhellion pellach isod, gan gadw'r angen i barchu eu hannibyniaeth mewn cof.

Rydym wedi ymroi i wneud gwaith cychwynnol i ganfod yr hyn sydd ei angen ar gyfer deddfwriaeth ychwanegol, a'i ymarferoldeb. Ni fyddai'n bosibl deddfu tan dymor y Cynulliad nesaf. Byddai rhaid ystyried pryd y gellid creu deddf newydd wedyn yng nghyd-destun blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn eu cyfanrwydd.

Er bod teitl Comisiynydd Plant Cymru wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, nid oes dim yn rhwystro'r Comisiynydd Plant rhag newid sut y mae'n cyflwyno'i hunan, na sut y mae hi'n marchnata ei rôl a'i swydd i wahanol gynulleidfaoedd. Mae cynseiliau ar gyfer hyn. Mae 'Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru' ('Commissioner for Older People in Wales') sef y teitl a bennwyd gan ddeddfwriaeth - yn marchnata'i hun fel yr 'Older People's Commissioner for Wales'. Gadawyd y penderfyniad i newid teitl bob dydd neu frandio y Comisiynydd Plant ai peidio at ddisgresiwn y Comisiynydd felly.

*C. Yn ymwneud â chraffu ac atebolrwydd.*

- Dylai'r Comisiynydd Plant barhau i fod â'r annibyniaeth sy'n deillio o fod yn "gorfforaeth undyn". Ond ni ddylai hyn fod ar draul atebolrwydd allanol a threfniadau llywodraethu mewnol priodol.
- Dylai swydd Comisiynydd Plant Cymru gael ei hadolygu'n annibynnol, unwaith yn ystod pob cyfnod llawn yn y swydd. Dylai hwn fod yn ofyniad statudol.
- Yn ddelfrydol dylai pob un o'r Comisiynwyr yng Nghymru eistedd ar Banel/Bwrdd Cynghori un o'r Comisiynwyr eraill.
- Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiynydd Plant fod â Bwrdd Cynghori. Dylai proses penodi i'r Bwrdd gael ei harwain gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i llywodraethu gan y Broses Penodiadau Cyhoeddus. Fe ddylai'r Comisiynydd hefyd fod yn rhan o'r broses.
- Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiynydd Plant gynhyrchu dau Gynllun Gwaith Tair Blynedd yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Dylai ei Adroddiadau Blynyddol gael eu defnyddio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i asesu'r cynnydd mewn perthynas â'r Cynlluniau Gwaith hynny. Dylai'r dogfennau hynny gael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n addas ar gyfer craffu.
- Dylid rhoi mwy o gyfle i blant a phobl ifanc gyfrannu'n rhagweithiol at bolisïau'r Comisiynydd Plant trwy broses y Cynllun Gwaith tair blynedd. Dylent fod yn rhan o graffu ar gynnydd y Comisiynydd, naill ai trwy gyfrannu at yr Adroddiadau Blynyddol neu drwy gyflwyno'u hadroddiadau cyfochrog eu hunain gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Rydym yn falch bod adolygiad Dr Shooter wedi cydnabod y berthynas annibynnol hir-sefydlog sydd gan y Comisiynydd gyda'r Llywodraeth.

Mae annibyniaeth yn angenrheidiol er mwyn i Gomisiynydd Plant Cymru allu arfer ei swyddogaethau statudol a hyrwyddo a diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Rydym yn cytuno y dylai unrhyw gorff sy'n cael arian cyhoeddus fod yn atebol amdano ac yn destun craffu. Nid oes unrhyw reswm cyfreithiol nac ymarferol pam y dylai rhagor o graffu effeithio ar statws y Comisiynydd fel "corfforaeth undyn". Fodd bynnag, rydym yn teimlo byddai'r gofyniad i gael adolygiad annibynnol rheolaidd, a'r cynnig bod Comisiynwyr yn aelodau o fyrddau ei gilydd yn rhy gaeth a beichus.

Gallai'r Comisiynydd sefydlu a phenodi ei Bwrdd Cynghori ei hun a chytuno ar orchwyl gwaith y Bwrdd, yn amlinellu nod, strwythur a threfniadau llywodraethu'r Bwrdd. Rydym yn deall bod y Comisiynydd wedi penderfynu gwneud hynny.

Gwnaeth Dr Shooter argymhellion eglur y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynyddu ei rôl o ran craffu ar waith y Comisiynydd ac mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi ysgrifennu at y Llywydd i dynnu ei sylw atynt.

Mae annibyniaeth y Comisiynydd yn golygu bod angen iddi fod yn rhydd i drefnu'i gwaith heb gyfyngiadau wedi'u gosod o'r tu allan. Er bod cynhyrchu dau gynllun gwaith tair blynedd yn arfer da o bosibl, penderfyniad i'r Comisiynydd yw hwn i'w wneud ac i fod yn atebol amdano drwy graffu. Rydym yn falch bod y Comisiynydd yn dweud yn ei hymateb ei hun ei bod hi'n bwriadu derbyn yr argymhelliad ynglŷn â dau gynllun gwaith 3-blynedd. Rydym yn cytuno'n llwyr fod cynnwys plant a phobl ifanc yn ganolog o ran datblygu gwaith y Comisiynydd a dylai ei swyddfa fod yn arwain drwy esiampl fel Hyrwyddwr Hawliau Plant Cymru.

*D. Yn ymwneud ag effeithlonrwydd, gwerth am arian a chylch gorchwyl.*

- Dylid archwilio cyfleoedd ar gyfer cyd-fenter rhwng Comisiynwyr ac Ombwdsmyn yng Nghymru mewn perthynas â materion hawliau dynol cyffredin. Dylid ceisio mwy o eglurder o ran eu priod gyfrifoldebau lle mae materion yn gorgyffwrdd â'u ffiniau.
- Dylid cychwyn trafodaethau i uno rhai o swyddogaethau cefn swyddfa’r pedwar Comisiynydd statudol a fydd yn bodoli cyn bo hir a’r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, neu i archwilio opsiynau cost-effeithiol eraill.
- Dylai cylch gorchwyl Comisiynydd Plant Cymru gynnwys cyfrifoldeb am yr holl faterion, pa un a ydynt wedi’u datganoli ai peidio, sy’n ymwneud â lles plant a phobl ifanc sy’n byw fel arfer yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda llywodraethau eraill y DU i ddod o hyd i ffordd o fynegi’r egwyddor hon mewn deddfwriaeth newydd.
- Dylid ymestyn cylch gorchwyl y Comisiynydd i bob person ifanc hyd at 25 mlwydd oed.
- Nid oes rheswm argyhoeddiadol dros ehangu pwerau’r Comisiynydd Plant i gynnwys pwerau sancsiynu ac mae sawl rheswm pam y byddai gwneud hynny’n wrthgynhyrchiol.
- Cyn unrhyw gamau ymchwilio, dylai fod yn ofynnol i’r Comisiynydd ymgynghori â chyrff ymchwilio statudol i dynnu ar waith blaenorol ac egluro rolau. Dylai hyn fod yn ddyletswydd statudol i osgoi dyblygu.

Rydym yn cytuno, o ystyried yr amgylchiadau economaidd anodd a'r cyfyngiadau ariannol sy'n ein hwynebu i gyd, fod angen gweithredu'n gyflym lle mae yna botensial i Gomisiynwyr ymchwilio i opsiynau cydfentrau ac opsiynau cost-effeithiol, a chyfuno swyddogaethau i arbed arian a/neu fod yn fwy effeithiol.

Ar ôl i'r Cabinet llawn ystyried yr Adolygiad, cytunodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb ar ran Llywodraeth Cymru dros ddarparu cyngor, cefnogaeth ac anogaeth i'r Comisynwyr Plant a Phobl Hŷn annibynnol mewn perthynas ag adolygu eu gwasanaethau cefnogi. Aethpwyd ati i ddechrau'r adolygiad yn yr hydref 2015 ac mae'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a gwerth am arian trefniadau cyfredol gwasanaethau nad ydynt yn rhai rheng flaen, sy'n cefnogi rolau'r Comisiynwyr wrth iddynt ymwneud â'r cyhoedd. Mae hefyd yn ystyried ystod o opsiynau eraill, gan gynnwys trefniadau cydweithredol.

Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal ochr yn ochr â gwaith i sefydlu gwasanaethau cefnogi ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2016. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dweud nad yw, fel mater o egwyddor, am sefydlu unrhyw drefniadau ar gyfer gwasanaeth cefnogi yn annibynnol, os oes yna ddull arall ymarferol, mwy cost-effeithiol o'u sicrhau drwy gydweithredu.

Prif ffactor yr adolygiad fydd canfod dulliau da o arbed arian. Caiff y Comisiynwyr eu hannog i gytuno ar eu casgliadau cychwynnol erbyn Chwefror/Mawrth 2016, ac i ddechrau gweithredu'r trefniadau newydd yn ystod 2016-17. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried ac yn llywio'r gwaith tymor hirach sy'n cael ei wneud ar wasanaethau cefn swyddfa'r sector cyhoeddus.

O ran ehangu cylch gwaith y Comisiynydd i gynnwys pob mater, boed wedi'u datganoli ai peidio, rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwnnw yn llawn. Cafwyd trafodaethau helaeth gyda Llywodraeth y DU, ond ni ddaethpwyd i benderfyniad hyd yma. Byddwn yn parhau i gydweithio â llywodraethau eraill y DU i ddod o hyd i ffordd o symud ymlaen yn hyn o beth.

Mae'r CCUHP yn diffinio plentyn fel unrhyw berson sydd o dan 18 oed. Fe wnaethom ystyried ehangu ein dyletswyddau ni o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i gynnwys pawb o dan 25 oed, a chynhaliwyd ymgynghoriad ddiwedd 2012 i holi barn pobl Cymru am y syniad. Roedd yna wrthwynebiad cryf i'r syniad. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros fynd yn groes i hyn mewn perthynas â chylch gwaith y Comisiynydd. Mewn perthynas ag ehangu pwerau i gynnwys sancsiynau, rydym yn cytuno â'r argymhelliad ac nid ydym yn ystyried eu newid.

Rydym o'r farn bod y ddeddfwriaeth eisoes yn glir ynghylch y gofyniad i'r Comisiynydd Plant ymgynghori â chyrff ymchwilio yn ei gwaith. Mae Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru yn nodi mai dim ond ar ôl iddi ystyried a ymchwiliwyd eisoes i'r materion dan sylw yn rhywle arall y gall y Comisiynydd fynd ati i astudio achos.

*E. Yn ymwneud â phenodi a gweithdrefnau ariannu*

- Ceir egwyddorion eglur ynglŷn ag annibyniaeth cyrff cyhoeddus sy’n gweithio ym maes hawliau dynol. Dylai Llywodraeth Cymru eu cydnabod ac ymlynu wrthynt trwy drosglwyddo’r cyfrifoldeb am benodi a chyllido Comisiynydd Plant Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Dylai’r broses o benodi’r Comisiynydd Plant ddal i gael ei chyflawni trwy recriwtio agored a chan bwyllgor penodi o aelodau trawsbleidiol gyda chynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid gan gynnwys plant a phobl ifanc.
- Dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn glir ynghylch rôl ffurfiol plant a phobl ifanc wrth benodi'r Comisiynydd Plant.
- Dylai fod yn ofynnol i ymgeisydd llwyddiannus roi’r gorau i bob swydd bresennol lle gall fod canfyddiad am wrthdaro buddiannau.
- Dylid ystyried darparu cytundeb (contract) ar gyfer y Comisiynydd Plant ac ynddo ddyletswydd gofal tuag at ddeiliad y ddyletswydd honno yn ogystal â darpariaeth ynglŷn a beth ddylai ddigwydd a beth na ddylai ddigwydd ar ôl gadael y swydd.
- Dylai Comisiynydd Plant Cymru gael ei benodi am un cyfnod penodedig o 6blynedd, a’r cyfnod hwnnw’n cwmpasu dau Gynllun Gwaith 3 blynedd.
- Dylai’r broses o benodi’r Dirprwy Gomisiynydd gael ei harwain gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a’i llywodraethu gan y Broses Penodiadau Cyhoeddus. Fe ddylai’r Comisiynydd hefyd fod yn rhan o’r broses. Dylai statws y Dirprwy Gomisiynydd, ei gyfnod yn y swydd, yr amgylchiadau pan allai pwerau’r Comisiynydd gael eu dirprwyo iddo a’r broses ar gyfer ei ddisodli o’r swydd gael eu sefydlu mewn deddfwriaeth.

Rydym bob amser wedi parchu annibyniaeth y Comisiynwyr ac, felly, mae traddodiadau cryf wedi'u sefydlu, ar sail y ffaith nad yw Gweinidogion wedi ymyrryd. Mae hyn yn rhywbeth y mae pob Gweinidog yn ei ystyried yn un o gryfderau mawr pob Comisiynydd ac mae'n rhywbeth y mae'r Comisiynydd ei hun yn ei gydnabod. Fel y corff penodi a chyllido, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn hynod ofalus bob amser i barchu'r annibyniaeth oedd ei hangen ar y Comisiynydd Plant er mwyn cyflawni ei waith. Mae Dr Shooter yn nodi yn ei adroddiad sut roedd y Comisiynydd Plant blaenorol yn glir na wnaeth Prif Weinidog Cymru erioed ymyrryd â'r gwaith mewn unrhyw ffordd. Mae prosesau eisoes yn eu lle i sicrhau nad yw trefniadau cyllid y Comisiynydd yn amharu ar ei hannibyniaeth. Mae angen i amcangyfrifon cyllidebol gael eu gosod gerbron y Cynulliad, i hyrwyddo tryloywder a rhoi cyfle i'r Cynulliad eu dadansoddi a chraffu arnynt. Rydym o'r farn bod hyn yn gweithio'n dda.

Nid yw'n glir sut y byddai trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi mwy o annibyniaeth. Mae angen i gomisiynwyr yng Nghymru fod yn weithredol annibynnol ar Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae rhannu'r cyfrifoldeb dros benodi a chyllid ar y naill law a thros graffu ar y llall, rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn helpu i sicrhau annibyniaeth ac atebolrwydd y Comisiynydd.

Rydym o'r farn, felly, mai'r ffordd orau o warchod annibyniaeth Comisiynwyr yw drwy fod Llywodraeth Cymru yn cadw'r cyfrifoldeb dros benodi a chyllido Comisiynwyr, a'r Cynulliad yn cadw'r swyddogaeth graffu.

Ar hyn o bryd, mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Brif Weinidog Cymru ddefnyddio proses recriwtio gyhoeddus agored i benodi Comisiynydd Plant sy'n cynnwys gwahanol randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Sefydlwyd panel o bobl o bob plaid ac o bobl ifanc yn ystod proses recriwtio'r Comisiynydd cyfredol. Gweithiodd yn dda ac nid oes bwriad gennym i newid y broses hon.

Er ein bod yn llawn gefnogi swydd y Comisiynydd, rhaid i'w hannibyniaeth hi fod yn bwysicach na phopeth arall, ac nid ydym am wneud unrhyw ddarpariaethau sy'n mynd yn groes i'w statws fel corfforaeth undyn. Prif Weinidog Cymru sy'n penodi'r Comisiynydd, ac felly Llywodraeth Cymru yw'r corff penodi. Nid y corff sy'n dwyn y Comisiynydd i gyfrif. Mae Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr penodi sy'n cynnwys cymal yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd roi'r gorau i bob swydd bresennol lle gall fod canfyddiad o wrthdaro buddiannau. Mae'r llythyr hefyd yn amlinellu'r hyn sy'n ddisgwyliedig o ran beth ddylai ac na ddylai ddigwydd ar ôl iddi adael y swydd.

Mae tymor saith blynedd y Comisiynydd wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth. Er mwyn newid telerau cyflogaeth y Comisiynydd Plant, byddai'n rhaid cael deddfwriaeth newydd ac, fel yn achos argymhellion eraill sy'n ymwneud â deddfwriaeth, byddai angen cyflwyno achos cryf er mwyn dangos manteision gwneud hynny. O fewn y tymor saith blynedd hwn, mae'r Comisiynydd wedi nodi ei bod yn bwriadu gweithio ar sail dau gynllun 3 blynedd.

Rhaid i'r Comisiynydd fod yn amlwg gyfrifol ac yn bersonol gyfrifol am bopeth y mae ei swyddfa'n ei wneud ac nid ydym yn barod, felly, i gael gwared ar ei hawl i benodi ei Dirprwy Gomisiynydd ei hun.

## 2. Argymhellion ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru

Ystyriwyd bod pymtheg o'r argymhellion - gweler isod - ar gyfer Comisiynydd Plant Cymru. Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi parchu annibyniaeth y Comisiynydd. Nid yw'n briodol, felly, inni roi barn ar yr argymhellion hyn.

Aeth y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ati i ysgrifennu at y Comisiynydd Plant ac i ymweld â hi, er mwyn gofyn iddi ystyried yr argymhellion hyn a rhoi ei chyngor ar ffordd ymlaen. Derbyniwyd sawl ymateb gan y Comisiynydd ac rydym wedi bod yn hapus iawn gyda'i hymrwymiad i'r adolygiad a'i bod wedi ystyried yr argymhellion a'r camau, yn ôl yr hyn sy'n briodol.

Mae'r Comisiynydd Plant wedi cyhoeddi ei hymateb terfynol i'r adolygiad erbyn hyn. Mae copi ar gael yma http://www.childcomwales.org.uk/uploads/publications/609.pdf.

- Dylai'r amcangyfrifon o gyllideb y Comisiynydd fod yn llawer mwy manwl nag ydynt ar hyn o bryd.
- Dylai llais plant a phobl ifanc fod yn fwy canolog i'r mandad a'r broses graffu ar gyfer gwaith Comisiynydd Plant Cymru a'i effaith. Dylai eu lleisiau gael eu cynnwys yn Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd neu gael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn eu hadroddiadau cyfochrog eu hunain.
- Dylai cyfranogiad plant a phobl ifanc fod yn ganolog i waith Comisiynydd Plant Cymru.
- Mae'r Comisiynwyr ac Ombwdsmyn Plant yn y DU ac Iwerddon yn mynd i'r afael â phroblemau cyffredin mewn ffyrdd gwahanol. Dylid defnyddio'r cyfle i ddysgu oddi wrth ei gilydd a dangos sut y rhoddwyd hyn ar waith.
- Dylai argymhellion a wneir gan y Comisiynydd mewn unrhyw adroddiadau ganddo gael eu dilyn drwodd yn fwy trylwyr a systematig i asesu cydymffurfiaeth a'u heffaith bosibl.
- Dylai'r Comisiynydd Plant ail-sefydlu Grŵp Cynghori rheolaidd, ffurfiol o blanta phobl ifanc i lywio ei waith, gyda phroses ymgynghori ehangach i'r Grŵp Cynghori hwnnw wirio• ei fandad ei hun.
- Dylai fod gan wasanaeth Ymchwilio a Chynghori Comisiynydd Plant Cymru feini prawf mwy eglur ar gyfer derbyn achosion a'u cau a threfniadau dilynol mwy trylwyr ar gyfer y rhai a gyfeirir at asiantaethau eraill.
- Ceir canfyddiad bod Comisiynydd Plant Cymru'n llai hygyrch i grwpiau lleiafrifol nag i blant a phobl ifanc eraill. Dylai'r Comisiynydd gymryd camau mwy gweithredol i fyndi'r afael â hyn.
- Dylid gwneud mwy o ddefnydd a hwnnw'n ddefnydd mwy deallus o'r data a gesglir, o ymchwil ac o farn plant a phobl ifanc i lywio polisi'r Comisiynydd. Dylai'r system TG gael ei disodli fel ei bod yn fwy defnyddiol at y diben hwn.
- Dylai'r Comisiynydd barhau i ystyried deddfwriaeth cydraddoldeb mewn perthynas â chyfansoddiad ei staff. Dylid rhoi ystyriaeth i gyllido uwch swydd i ymgysylltu'n fwy llawn â chymunedau lleiafrifol.
- Dylai'r Comisiynydd ystyried newid cydbwysedd ei waith tuag at chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddylanwadu ar brosesau llunio polisïau a deddfwriaeth y Llywodraeth, mewn ffyrdd nad ydynt yn peryglu ei annibyniaeth.

- Dylai’r Comisiynydd fabwysiadu dull rhychwant oes o bennu blaenoriaethau polisi. Dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn Cynlluniau Gwaith ac Adroddiadau Blynyddol.
- Dylai’r Comisiynydd ystyried pa un a yw’r swyddfa yn Llansamlet yn rhy bell ar gyfer cyfathrebu’n effeithiol gyda gwneuthurwyr polisïau. Dylid ail-asesu gwerth a hyfywedd swyddfa Bae Colwyn. Ni ddylai hyn o anghenraid olygu bod sgiliau a phrofiad y staff sy’n gweithio yno’n cael eu colli.
- Dylai fod gan y Comisiynydd bolisi ffurfiol ar gyfer y cronfeydd wrth gefn ymae’n ei ddal. Dylid ystyried sut y gellir defnyddio rhai o’r cronfeydd wrth gefnyn well ar gyfer y plant a’r bobl ifanc y mae’n eu cynrychioli.
- Dylai’r Comisiynydd Plant ail-ystyried pa un a yw’r strwythurau staffio presennol yn gweithio’n foddhaol.

## 3. Argymhellion ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r ddau argymhelliad isod, sydd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, yn ymwneud yn bennaf ag atebolrwydd a rôl y Cynulliad o ran craffu ar waith y Comisiynydd. Ni fyddai'n briodol i Weinidogion Cymru roi barn ar yr argymhellion hyn.

Ysgrifennodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi at Rosemary Butler AC, y Llywydd, yn rhestru'r argymhellion hyn ac yn gofyn am iddynt gael eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol.

- Dylai fod strwythur mwy ffurfiol ar gyfer craffu ar y Comisiynydd Plant, a'r gwaith hwnnw'n cael ei rannu rhwng pwyllgorau cyllid a phynciol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Efallai y bydd ar aelodau o'r Pwyllgorau hynny angen hyfforddiant ar swyddogaethau'r Comisiynydd er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau craffu.

- Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiynydd gyfiawnhau cydbwysedd ei waith pan fo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i bwyllgorau'n craffu ar ei Gynlluniau Gwaith ac Adroddiadau Blynyddol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cymru Ifanc i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn



Ionawr 2016

© Hawlfraint y Goron 2016 WG27435 ISBN digidol 978 1 4734 5474 3

**YMATEB GAN LYWODRAETH CYMRU I FATERION A GODWYD GAN BLANT A PHOBL IFANC**

## Cyflwyniad

Mae sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais ar faterion sy’n effeithio arnyn nhw yn hawl bwysig. Mae gennym ddyletswydd i ystyried yr holl hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn wrth wneud unrhyw benderfyniad. Y llynedd fe basion ni ddeddf o’r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 sy’n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus feddwl am yr effaith y gallai eu penderfyniadau ei chael ar bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Ar ran Llywodraeth Cymru hoffwn ddiolch i’r bobl ifanc o Cymru Ifanc am godi materion sy’n bwysig i blant a phobl ifanc, a amlygwyd yn eu hadroddiad ar Gymru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

Mae ein hymateb ni’n canolbwyntio ar ymateb i’r materion a’r argymhellion a godwyd yn eu hadroddiad ac ar ddarparu gwybodaeth gyfoes am beth o’r gwaith yr ydym yn ei wneud i fynd i’r afael â nhw. Gobeithio y bydd yr adroddiad o gymorth i chi a’i fod yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, a gobeithio y bydd yn rhoi sicrwydd ichi ein bod wastad yn croesawu eich argymhellion ac yn eu hystyried yn ofalus.



**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

# Diogelwch Ar-lein

**Argymhellion**

- **Cadw plant yn ddiogel rhag niwed pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd – dylai plant wybod sut i gadw'n ddiogel.**
- **Dylai gwybodaeth am ddiogelwch ar-lein fod ar gael yn ehangach, trwy ysgolion a rhaglenni addysgol, a chynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am sut mae cadw'n ddiogel. Gallai posteri a chyhoeddusrwydd hwylus i blant gael eu defnyddio hefyd.**
- **Dylid sicrhau gwell monitro ar wefannau anniogel, mwy o gyfyngiadau ar yr hyn sydd ar gael i blant, a chosbau mwy i'r rhai sy'n torri'r gyfraith.**
- **Mae angen mwy o addysg ar rieni a gofalwyr ynghylch sut mae cadw plant yn ddiogel ar-lein.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae ein hymagwedd tuag at ddefnyddio rhwydweithio cymdeithasol mewn ysgolion yn gyson â'n hymagwedd gyffredinol tuag at ddiogelwch ar-lein. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig iawn dysgu i blant sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel dan oruchwyliaeth gan eu helpu ar yr un pryd i ddysgu'r sgiliau a'r wybodaeth i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn annibynnol.

2. Rydym wedi ariannu dau adnodd allweddol i helpu plant i fod yn ddiogel ar-lein. Cafodd '360 degree safe Cymru' a'r 'Adnodd Llythrennedd a Dinasyddiaeth Digidol' eu lansio gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Hydref 2014 ac maen nhw ar gael o wefan Hwb http://hwb.cymru.gov.uk

3. Mae siop un stop ar gyfer gwybodaeth am e-Ddiogelwch i athrawon, rhieni a phlant a phobl ifanc wedi cael ei chreu ynghyd â pharth e-Ddiogelwch ar Hwb. Mae'r ardal hon yn cynnwys adnoddau sy'n benodol ar gyfer ysgolion gan gynnwys offeryn hunanasesu e-Ddiogelwch gwobrwyol i ysgolion ac adnodd Llythrennedd Digidol cynhwysfawr yn ogystal â diweddariadau a chanfyddiadau ymchwil ym maes e-Ddiogelwch. Rydym yn darparu canllawiau i gefnogi ysgolion trwy'r parth e-Ddiogelwch ar Hwb. Mae gan e-Ddiogelwch bresenoldeb allweddol ar wefan genedlaethol Hwb gyda pharth sydd wedi'i neilltuo i e-Ddiogelwch a botwm hysbysu sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r Ganolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP).

4. Er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol ac ysgolion i ganiatáu mynediad at wefannau addysgol perthnasol, rydym wedi datblygu cyfres o safonau

ar gyfer hidlo’r we. Mae’r safonau’n nodi’r cyfeiriad y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion fod yn mynd ynddo fel modd i ddiogelu ein pobl ifanc yn effeithiol ac annog ysgolion i ganiatáu mynediad at yr ystod lawn o dechnolegau’r rhyngrwyd a thechnolegau cymdeithasol ar gyfer staff addysgu, y mae llawer ohonynt wedi’u rhwystro mewn ysgolion ar hyn o bryd. Mae’r canllawiau ar gael yma:
http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/web-filtering-standards/?lang=cy

# Addysg

**Argymhellion**

- **Dylai fod mwy o grwpiau cefnogi a chwnselwyr mewn ysgolion – dydy oedolion ddim yn ein cymryd o ddifrif pan fydd problemau gyda ni, a dydyn nhw ddim wir yn gwrando.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Er bod sesiynau cwnsela'n cael eu rhoi mewn ysgolion, Awdurdodau Lleol sy'n trefnu i wasanaethau cwnsela gael eu darparu, felly mae cwnselwyr yn gwbl annibynnol ar yr ysgol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw plant a phobl ifanc yn teimlo bod yr ysgol yn rhan o'r broblem y maen nhw'n ymdrin â hi neu'r mater y maen nhw'n ymdrin ag ef. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau cwnsela'n cael eu darparu ar gyfer disgyblion rhwng 10 mlwydd oed (Blwyddyn 6) a 18 mlwydd oed.

2. Rydym wedi gofyn i Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru wneud dau ddarn o waith inni. Bydd y cyntaf yn rhoi sylw i gefnogi lles emosiynol plant mewn ysgolion cynradd. Bydd yr ail ddarn o waith yn golygu trefnu cyfarfod o arbenigwyr i drafod rhoi cymorth i ddisgyblion wrth iddyn nhw symud trwy'r ysgol uwchradd, gan gynnwys cyngor, cymorth ac arweiniad i helpu eu lles cyffredinol.

3. Pan fydd y ddau ddarn o waith yma wedi cael eu cwblhau, byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried eu canfyddiadau wrth inni ddatblygu ein polisïau.

**Argymhellion**

- **Dylai fod mwy o addysg i blant a phobl ifanc ynghylch sut mae plant a phobl ifanc yn cadw'n emosiynol iach, yn ogystal â gweithgareddau i hybu hynny**.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae ein fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ar gyfer dysgwyr 7 – 19 oed yng Nghymru yn rhoi canllawiau i ysgolion ac athrawon ynghylch sut i addysgu ABCh. Mae'r fframwaith yn darparu dull eang a chytbwys o addysgu ABCh sy'n cwmpasu llawer o bynciau ac yn cynnwys ystod o brofiadau i gefnogi datblygiad a lles personol a chymdeithasol dysgwyr.

2. Dylai ysgolion, colegau a darparwyr dysgu eraill a gynhelir gan Awdurdodau Lleol seilio'u gwersi ABCh ar y fframwaith.

3. Un o themâu allweddol ABCh yw iechyd a lles emosiynol ac elfen ganolog o'r broses yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i ddysgwyr i wybod ble a sut i gael gafael ar wybodaeth a chymorth personol.

4. Fe adolygodd yr Athro Graham Donaldson y cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn 2014 ac fe gyhoeddodd ei adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' ym mis Chwefror 2015. Roedd y 68 argymhelliad yn ei adroddiad yn amlygu llawer o newidiadau yr oedd eu hangen ac fe dderbyniodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei argymhellion i gyd ym mis Mehefin 2015.

5. Fe wnaeth yr Athro Donaldson enwi 4 diben sy'n nodi sut y dylai dysgwr sy'n gadael y gyfundrefn addysg 'edrych'. Un o'r dibenion yw y dylai dysgwyr fod yn "unigolion iach, hyderus" sydd "yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi". Yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, mae'r Athro Donaldson yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys o 3 – 16 oed, a hwnnw'n cael ei gyflwyno trwy chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Un o'r rhain yw Iechyd a Lles sy'n anelu at roi'r cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth am iechyd cymdeithasol, corfforol ac emosiynol yn eu bywydau eu hunain.

6. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau gynllun o'r enw 'Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes' ar 22 Hydref. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu gydag athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill ledled Cymru, gyda'r nod y bydd ar gael i ysgolion erbyn mis Medi 2018. Mae'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu'n gyfle arall i fynd i'r afael â lles plant a phobl ifanc.

**Argymhellion**

- **Dylai addysg camddefnyddio sylweddau gychwyn ym Mlwyddyn 7, yn hytrach nag aros nes bod pobl ifanc eisoes wedi bod yn arbrofi.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym yn cytuno y dylai addysg camddefnyddio sylweddau ddechrau'n gynnar, ac mae ein Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 2 – 6 ddeall effeithiau niweidiol, iddyn nhw eu hunain ac i eraill, sy'n deillio o gamddefnyddio tybaco, alcohol a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon eraill.

2. Gan weithio gyda'r heddlu, rydym hefyd yn ariannu 'Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan'. Mae'r rhaglen hon yn darparu addysg gyson mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau i ddysgwyr o bob oed mewn dros 99% o'r ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru.

**Argymhellion**

- **Dylai fod llai o bwyslais ar bynciau academaidd a chymwysterau da, a mwy ar sgiliau personol, cymdeithasol a bywyd.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae model newydd Bagloriaeth Cymru yn darparu cyfleoedd diddorol i ddysgwyr ddatblygu sgiliau bywyd sy'n cael eu gwerthfawrogi gan lawer o brifysgolion a chyflogwyr.

2. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys elfennau sydd wedi'u bwriadu i ddatblygu ac asesu ystod eang o sgiliau. Er enghraifft mae'r Her Menter a Chyflogadwyedd yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau bywyd megis sgiliau trefnu personol, rheoli amser, pennu blaenoriaethau a gweithio mewn tîm.

3. Mae'r trydydd argymhelliad yn adolygiad yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm a threfniadau asesu mewn ysgolion yng Nghymru'n adlewyrchu'r argymhelliad hwn hefyd. Dywedodd mai "dibenion y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes" ac y dylent fod "yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas". Derbyniodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau bob un o argymhellion yr

Athro Donaldson, gan gynnwys yr un yma. Mae ein cynllun, sef 'Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes' wedi'i fwriadu i wella profiad dysgwyr yng Nghymru.

**Argymhellion**

- **Dylai ABCh gael ei haddysgu'n unffurf ledled Cymru. Mae angen athrawon dynodedig, wedi'u hyfforddi'n briodol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae'n ofynnol i athrawon fod â dealltwriaeth am yr anghenion dysgu amrywiol y gall fod gan eu dysgwyr a gwneud popeth y gallant i ddarparu'r addysg orau bosibl er mwyn iddyn nhw gyrraedd eu potensial, beth bynnag fo'u hamgylchiadau personol. Mae'n ofynnol i athrawon gyfeirio at y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol a gallant ddefnyddio adnoddau a deunyddiau cymorth i addysgu ABCh.

2. Gall ysgolion wahodd siaradwyr gwadd i gyflwyno unrhyw destun ABCh os ydyn nhw'n ei chael yn anodd siarad amdano gyda phobl ifanc neu os ydyn nhw'n teimlo nad yw'r arbenigedd ganddyn nhw i ymdrin â'r testun yn llawn ac yn briodol. Gall cynlluniau megis Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Cyfan, sy'n weithredol mewn 99% o'r ysgolion cynradd ac uwchradd, gyflwyno dosbarthiadau ar faterion sy'n anodd i'w trafod ar eu rhan.

3. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o newid Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon ar gyfer yr holl athrawon newydd, yn dilyn adolygiad o hyfforddiant athrawon yng Nghymru. Rydym yn gwybod pa fath o athrawon y mae eu hangen i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru. Bydd hyn yn golygu bod athrawon newydd yn cael eu hyfforddi i gysylltu â'u disgyblion a chefnogi eu hiechyd a'u lles, fel bod disgyblion yn cael y cyfle a'r gefnogaeth i ffynnu ac ymwneud â'u haddysg a'i mwynhau. Bydd athrawon presennol yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau a dulliau addysgu newydd hefyd.

4. Mae'r cwricwlwm newydd yn cydnabod pwysigrwydd iechyd a lles ac mae iechyd a lles yn un o'r chwe maes y mae'n seiliedig arnyn nhw. Bydd y newidiadau i hyfforddiant athrawon yng Nghymru'n sicrhau bod athrawon wedi'u paratoi'n llawn i ateb gofynion y cwricwlwm cenedlaethol newydd.

**Argymhellion**

- **Dylai pobl ifanc gael eu dysgu mwy am fyw'n annibynnol a democratiaeth a hawliau.**

## Ymateb Llywodraeth Cymru

1. Rydym yn cytuno bod rhoi i bobl ifanc y sgiliau y mae eu hangen i fyw'n annibynnol ac i ddeall democratiaeth a hawliau'n bwysig ac rydym wedi mynd i'r afael â hyn mewn sawl gwahanol ffordd. Mae'r rhain yn cynnwys:

   - Mae'r thema 'Dinasyddiaeth Weithredol' yn y fframwaith ABCh yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth am wleidyddiaeth, cyflogaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd sy'n adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

   - Mae'r thema 'Paratoi ar gyfer Dysgu Gydol Oes' yn y fframwaith ABCh yn cynnwys cyfleoedd i helpu dysgwyr i ddeall rôl a phwysigrwydd arian. Mae'r thema'n helpu dysgwyr i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau fel defnyddwyr, i ddeall y gwahaniaeth rhwng gwaith am dâl a gwaith heb dâl a chydnabod pwysigrwydd caffael y sgiliau newydd sy'n hanfodol mewn byd gwaith sy'n gystadleuol ac yn newid.

   - Mae Bagloriaeth Cymru yn cynnwys llawer o gyfleoedd diddorol i ddysgwyr yng Nghymru gaffael sgiliau bywyd i baratoi ar gyfer y brifysgol a chyflogaeth.

   - Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru yn cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd a chadernid. Mae'r strategaeth yn annog gweithwyr ieuenctid i feithrin ymddiriedaeth a chynnal perthynas wirfoddol gyda phobl ifanc, ac yn galluogi pobl ifanc i rannu cyfrifoldeb a dod yn bartneriaid cyfartal yn y prosesau dysgu a phenderfynu. Fel hyn, mae gwaith ieuenctid yn ceisio annog pobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithredol a chyfranogi mewn cymdeithas, dull sy'n cefnogi egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

   - Mae gennym ddyletswydd i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys posteri, taflenni, gwefannau, aps, Facebook ac ymgyrchoedd radio, bod yn bresennol mewn digwyddiadau, a hyfforddi gweithwyr proffesiynol fel eu bod nhw'n gallu dweud wrth blant, pobl ifanc a rhieni. Rydym hefyd yn darparu cyllid ar gyfer:

i. y Comisiynydd Plant sydd hefyd â dyletswydd i godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n rhedeg cynllun llysgenhadon ysgolion sy'n creu'r cyfle i ddisgyblion drafod hawliau gyda gweddill yr ysgol.
ii. Sefydliad o'r enw 'Plant yng Nghymru' i godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a hefyd 'Cymru Ifanc' i roi llais i blant a phobl ifanc a'u galluogi i gael eu clywed gan y Llywodraeth ac eraill.

2. Ar wahân i'n gwaith yn Llywodraeth Cymru, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad etholedig, hefyd yn gweithio i helpu plant a phobl ifanc ddeall democratiaeth a hawliau. Er enghraifft, mae eu Bathodyn Her Democratiaeth yn annog pobl ifanc i archwilio prosesau democrataidd y Deyrnas Unedig, Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru a dysgu amdanynt, er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ffurfio'u barn eu hunain yn y dyfodol a chymryd rhan mewn democratiaeth.

**Argymhellion**

- **Dylid dysgu pethau fel "cydsyniad", a gwell addysg rhyw a pherthnasoedd, nid dim ond yr ochr fiolegol a sut mae gwisgo condom. Dylai fod yn rhan o'r cwricwlwm, nid ychwanegiad yn unig.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym yn cydnabod bod addysg rhyw yn rhan bwysig o dyfu'n oedolyn a bod angen i'r holl bobl ifanc ddeall yr agweddau corfforol ac emosiynol ar berthnasoedd rhywiol. Mae ysgolion yn chwarae rhan ganolog o ran darparu hyn. Ers 2008, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fod yn rhan o'r cwricwlwm yng Nghymru.

2. Mae'n rhaid i raglenni Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fod yn berthnasol i ddysgwyr ac yn sensitif i'w hanghenion. Yn yr un modd mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cydnabod amrywiaeth ac yn dangos parch tuag at eraill beth bynnag fo'u cyfeiriadedd rhywiol. Felly byddem yn disgwyl i athrawon ymdrin â materion hunaniaeth rywiol neu gyfeiriadedd rhywiol yn onest, yn sensitif ac mewn ffordd anwahaniaethol, gan ddarparu gwybodaeth ffeithiol.

3. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod addysg am berthnasoedd iach yn cael ei darparu fel rhan o'r cwricwlwm ac rydym yn rhoi cymorth i brosiectau sy'n gweithio mewn ysgolion i addysgu plant am berthnasoedd iach, cam-drin a'i ganlyniadau a ble i geisio cymorth.

4. Dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 rydym wedi darparu canllawiau ar gyfer ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach i'w helpu i sicrhau bod lleoliadau addysg yn lleoedd lle gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau a pherthnasoedd iach sy'n seiliedig ar barch.

**Argymhellion**

- **Dylai fod gwell hyfforddiant i ofalwyr maeth er mwyn iddyn nhw ddeall yn well yr heriau a'r straen mae pobl ifanc yn eu hwynebu.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw mewn teulu lle mae'n cael y gofal, y gefnogaeth a'r cymorth y mae eu hangen arno. Mae teuluoedd maeth ledled Cymru'n darparu hyn bob dydd i filoedd o blant nad ydyn nhw'n gallu byw gartref.

2. Mae'r holl ofalwyr maeth yn cael eu gwirio o leiaf unwaith y flwyddyn i wneud yn siŵr eu bod yn rhoi gofal da i'r plant sydd wedi'u lleoli gyda nhw. Byddan nhw hefyd yn cael hyfforddiant a bydd gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn ymweld â nhw'n aml hefyd i gynnig cyngor a chymorth iddyn nhw.

3. Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i wasanaethau maethu roi i ofalwyr maeth yr hyfforddiant, yr wybodaeth a'r cymorth y mae eu hangen arnyn nhw i roi'r gofal gorau posibl i'r plant y maen nhw'n gofalu amdanynt. Mae llawer o gyrsiau da y gall gofalwyr maeth fynd arnyn nhw; fodd bynnag mae'n rhaid i bawb sydd am fod yn ofalwr maeth gael hyfforddiant i:

   - ddeall beth mae bod yn ofalwr maeth yn ei olygu
   - dysgu am anghenion a straen plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
   - paratoi'n well i ddod yn ofalwr maeth.

4. Mae *Sgiliau i Faethu* (a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Maethu) yn gwrs hyfforddi ar gyfer gofalwyr maeth sy'n paratoi i faethu. Mae'n cael ei ddefnyddio gan bron bob gwasanaeth maethu yng Nghymru. Mae'n cynnwys yr holl sgiliau y bydd ar ofalwyr maeth eu hangen i ofalu am blant a phobl ifanc. Unwaith y mae gofalwyr maeth wedi gwneud y cwrs yma maen nhw'n cael eu gwirio wedyn a'u cymeradwyo fel gofalwyr maeth. Mae hyn yn golygu eu bod wedi cael eu gwirio sawl gwaith gan weithwyr cymdeithasol sydd wedi cael hyfforddiant arbennig a'u bod wedi cael eu hyfforddi sut i fod yn ofalwr maeth da.

5. Bydd gan bob gofalwr maeth gynllun hyfforddiant unigol a byddan nhw'n cael cyfle i wneud llawer o wahanol gyrsiau hyfforddi. Mae hyn yn golygu, pan fo gofalwr maeth yn gofalu am blentyn neu berson ifanc

sydd ag anghenion penodol, bod yn rhaid i'r gofalwr maeth gael hyfforddiant i'w ddysgu sut i'w helpu – er enghraifft, os yw'r plentyn yn awtistig neu os yw ei ymddygiad yn heriol.

6. Mae llawer o gyrsiau hyfforddi newydd hefyd sy'n helpu gofalwyr maeth er mwyn iddyn nhw allu deall yn well yr heriau a'r straen y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, ac atal lleoliadau rhag methu.

7. Er enghraifft, mae hyfforddiant *Confidence in Care* yn dysgu sgiliau rhianta (bod yn dda am wrando, deall, canmol, annog a bod yn fodel rôl da) i ofalwyr maeth ac yn eu dysgu sut i gynorthwyo'u plentyn maeth gyda'i addysg ac i ddygymod â bywyd pob dydd. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ariannu *Confidence in Care* yng Nghymru am bum mlynedd o 2015 tan 2020. Bydd yr hyfforddiant hwn yn hyfforddi 1,500 o ofalwyr maeth yng Nghymru fel eu bod yn gallu deall yn well yr heriau a'r straen y mae pobl ifanc yn eu hwynebu.

**Argymhelliad**

- **Dylai pobl ifanc gael rhoi barn ynghylch pwy yw eu gweithiwr cymdeithasol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi popeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cynghorau) ei wneud i helpu pobl yn eu hardal. Mae'r Ddeddf yn golygu y bydd yn rhaid i bawb gydweithio i wella llesiant pobl y mae arnyn nhw angen gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gwrando ar farn a theimladau plentyn neu berson ifanc ynghylch sut y mae gofal a chymorth yn cael eu darparu ar ei gyfer pan fo angen.

2. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cael eu neilltuo i weithio gydag unigolion gan yr awdurdod lleol ac er nad oes cyfleuster i blentyn ddewis ei weithiwr cymdeithasol, mae'n rhaid i bobl ifanc deimlo'u bod yn bartner cyfartal yn eu perthynas â'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth ar eu cyfer. Egwyddor allweddol wrth ddarparu gofal a chymorth ar gyfer plentyn yw y dylai'r dull ganolbwyntio ar y plentyn. Mae hyn yn golygu mai lles y plentyn yw'r prif ffocws ac y dylai'r plentyn allu cyfrannu i gyfarfodydd ac asesiadau, mynegi ei deimladau neu ei bryderon a dylanwadu ar y dewisiadau sy'n cael eu gwneud. Mae'n rhaid i unigolyn deimlo'i fod yn bartner cyfartal yn ei berthynas gyda gweithwyr proffesiynol. Gall unrhyw unigolyn wahodd rhywun o'i ddewis i'w gynorthwyo i gyfranogi'n llawn a mynegi ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau.

3. Mae’n rhaid i’r broses asesu fod wedi’i seilio ar anghenion y plentyn a dylai’r awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth i egluro sut y gall y plentyn gael gafael ar gymorth eirioli er mwyn iddo allu bod yn bartner cyfartal yn y broses asesu. Ceir rhwymedigaethau cyfreithiol hefyd i gynorthwyo plant a phobl ifanc i wneud ymholiadau neu gwynion am y modd y mae’r awdurdod lleol yn cyflawni’i gyfrifoldebau tuag at blentyn. Mae hyn yn cynnwys trefnu bod plant yn cael cymorth eiriolwr sy’n gallu eu helpu i weithio gyda gweithiwr cymdeithasol fel bod eu barn, eu dymuniadau a’u teimladau’n cael eu clywed.

4. Os bydd perthynas yn methu rhwng plentyn a gweithiwr cymdeithasol a hynny’n effeithio ar y gallu i warchod a hybu buddiannau’r unigolyn, mae hyn yn rhywbeth y dylid ei drafod gyda’r awdurdod lleol i helpu i geisio datrys y sefyllfa.

| **Argymhelliad** |
|---|
| ➢ **Does bron dim cefnogaeth i blentyn sy'n gadael gofal pan fo'n 18.** |

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae rhan 6 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ymdrin â'r pethau y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol eu gwneud i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'n nodi'r holl wahanol fathau o gymorth y dylent eu rhoi, gan gynnwys:
   - trefniadau ar gyfer gadael gofal
   - cynlluniau ar gyfer pobl ifanc sy'n troi'n 16 fel eu bod yn gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd ac yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer yr adeg pan fyddan nhw'n gadael gofal
   - rôl cynghorwyr personol o ran eu cynorthwyo pan fyddan nhw'n gadael gofal
   - y cymorth y gall pobl ifanc ei gael nes eu bod yn 25.

2. Dan y Ddeddf newydd, unwaith y bydd person ifanc yn gadael gofal mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol benodi cynghorydd personol i'w gefnogi. Dylai'r cynghorydd hwn weithredu fel y canolbwynt i sicrhau bod y person ifanc sy'n gadael gofal yn cael cymorth personol i'w helpu i fod yn annibynnol a byw bywyd fel oedolyn.

3. Hefyd, ym mis Mawrth 2015 fe lansion ni'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' i helpu pobl ifanc mewn gofal maeth sy'n dymuno parhau i fyw gyda'u teulu maeth ar ôl iddyn nhw droi'n 18 nes eu bod yn 21, neu hyd yn oed nes eu bod yn 25 os ydyn nhw'n cwblhau eu haddysg neu eu hyfforddiant. Mae hyn yn rhoi sefydlogrwydd iddyn nhw tra'u bod yn gwneud arholiadau neu'n chwilio am waith, neu tra'u bod yn paratoi i symud i drefniant byw mwy annibynnol. Mae'n golygu eu bod yn gallu symud pan fyddan nhw'n barod, yn hytrach na gorfod gadael pan fyddan nhw'n troi'n 18.

4. O fis Ebrill 2016, pan ddaw'r ddeddf gwasanaethau cymdeithasol newydd i rym, bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol ofyn i berson ifanc a'i ofalwr maeth a ydyn nhw'n dymuno ymrwymo i drefniant 'Pan Fydda i'n Barod' pan fo'r person ifanc yn troi'n 18. Bydd yn rhaid iddyn nhw ofyn hyn pan fo'r person ifanc yn troi'n 16, fel bod digon o amser i baratoi. Os nad yw'n bosibl i'r person ifanc aros gyda'r gofalwr maeth wedi iddo droi'n 18, bydd amser i symud y person ifanc i leoliad maeth arall neu i wneud trefniadau eraill.

5. Fel arfer mae'n rhaid i bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi plant symud ymlaen pan fyddan nhw wedi gadael gofal. Fodd bynnag, os ydyn nhw'n dymuno ymrwymo i gynllun 'Pan Fydda i'n Barod' gallai'r Awdurdod Lleol geisio dod o hyd i leoliad maeth iddyn nhw pan fyddan nhw'n 16 neu'n 17, a allai ddod yn lleoliad 'Pan Fydda i'n Barod' pan fyddan nhw' 18. Rydym yn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn i weld a oes mwy y gellir ei wneud i gefnogi pobl ifanc mewn cartrefi plant pan fyddan nhw'n gadael gofal.

**Argymhelliad**

- **Dylai fod cefnogaeth, gan gynnwys eiriolaeth, ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i roi'r cyfleoedd gorau iddyn nhw mewn bywyd.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae awdurdodau lleol dan orfodaeth gyfreithiol i ddarparu 'llais' neu eiriolwr proffesiynol annibynnol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal, person sy'n gadael gofal a phlentyn mewn angen, sy'n dymuno cymryd rhan mewn penderfyniadau neu wneud sylwadau am benderfyniadau ynghylch eu bywydau. Dylid darparu eiriolwr proffesiynol annibynnol hefyd os yw plentyn neu berson ifanc yn dymuno gwneud cwyn.

2. Rydym wedi gofyn i Awdurdodau Lleol ystyried canfyddiadau adroddiad y Comisiynydd Plant ar eiriolaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chyflwyno cynigion i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am eiriolaeth a'r modd y mae gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â hawl gyfreithiol i hynny.

3. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi sefydlu grŵp arbennig i ystyried hyn a datblygu achos busnes sy'n mynd i'r afael ag argymhellion y Comisiynydd Plant. Rydym yn deall bod y grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd, yn gwneud cynnydd da. Mae canlyniadau'r gwaith hwn ar y trywydd iawn i gael eu cyflwyno i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn iddo eu hystyried erbyn diwedd mis Ionawr 2016.

4. Bydd y Cod Ymarfer ar eiriolaeth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n atgyfnerthu hawliau a hawlogaethau plant i eiriolaeth, yn dod i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi:
    - sut y mae eiriolaeth yn helpu i roi i bobl y cymorth y mae arnyn nhw ei angen i allu bod â llais, rhoi barn a bod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
    - y dylai pawb gan gynnwys plant a phobl ifanc gael y cymorth y mae ei angen arnyn nhw i gael eu clywed
    - y gwahanol fathau o eiriolaeth
    - sut i roi gwybod i bobl am wasanaethau eirioli

- sut i wneud yn siŵr bod pobl yn cael gwybodaeth a chymorth i wneud penderfyniadau ynghylch eiriolaeth
- sut i asesu (gwirio) faint o eiriolaeth a chymorth y mae ar rywun eu hangen
- pryd ddylid talu am eiriolaeth a phryd ddylai fod am ddim

Mae’r Cod Ymarfer hefyd yn egluro pryd ddylai rhywun beidio â bod yn eiriolwr a phryd y mae angen eiriolwr annibynnol.

# Bwlio a Throseddau Casineb

**Argymhellion**

- **Dylai posteri gwrth-fwlio fod mewn parciau, ysgolion, siopau, llyfrgelloedd, swyddfeydd.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Fel rhan o Wythnos Gwrthfwlio eleni (16-20 Tachwedd 2015) fe drefnon ni fod posteri gwrthfwlio ar gael ar-lein. Er eu bod wedi'u hanelu at ysgolion roedd modd defnyddio'r rhain yn y rhan fwyaf o leoliadau. Cafodd y posteri eu cynnwys hefyd mewn pecynnau adnoddau a oedd ar gael i wasanaethau lles addysg mewn awdurdodau lleol er mwyn iddyn nhw eu defnyddio yn ôl eu disgresiwn. Cynhyrchwyd taflenni i blant a rhieni hefyd. Cafodd y rhain eu dosbarthu i feddygfeydd teulu ledled Cymru yn 2015.

**Argymhellion**

- **Dylai athrawon hyfforddi plant i wybod beth i'w wneud os ydynt yn cael eu bwlio.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae ein set o ganllawiau gwrthfwlio 'Parchu Eraill' yn rhoi'r offer angenrheidiol i ysgolion i ddatblygu a gweithredu polisïau gwrth-fwlio effeithiol.

2. Yn 2015, fe gynhyrchon ni gyngor gwrthfwlio newydd i blant, pobl ifanc a rhieni sy'n pryderu ynghylch bwlio. Mae'r daflen a'r poster; "Wyt Ti'n Cael Dy Fwlio?" wedi'u bwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc, tra bo'r daflen; "A Yw Eich Plentyn Yn Cael Ei Fwlio?" yn cynghori rhieni beth ddylen nhw ei wneud os yw eu plentyn yn cael ei fwlio. Mae'r ddau adnodd ar gael ar-lein. Cafodd copïau caled o'r taflenni eu dosbarthu i bob ysgol gynradd ac uwchradd a phob meddygfa deulu yng Nghymru.

3. O fewn y fframwaith ABCh ar gyfer dysgwyr 3 – 19 oed, ceir pum thema gydberthynol, sef
   - Dinasyddiaeth Weithredol;
   - Datblygiad Moesol ac Ysbrydol;
   - Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes;
   - Iechyd a lles emosiynol; a
   - Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

4. Mae datblygiad personol a chymdeithasol dysgwyr yn cael ei hybu trwy’r pethau sy’n cael eu haddysgu yn y cwricwlwm a hefyd gan brofiadau wedi’u cynllunio ym mywyd cyffredinol yr ysgol neu’r coleg. Bydd rhaglen gydgysylltiedig dda yn defnyddio sesiynau ABCh dynodedig, cyfleoedd mewn pynciau eraill, a gweithgareddau â ffocws pendant.

5. Mae bwlio a rheoli perthnasoedd personol yn cael eu crybwyll yn benodol yn y fframwaith ABCh ac mae sawl cyd-destun i ysgolion addysgu am y materion hyn a sgiliau rhyngbersonol eraill. Er enghraifft, mae gan yr heddlu Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan ac maen nhw’n cyflwyno gwersi ar fwlio i 90% o’r holl ysgolion yng Nghymru.

6. Dylai pobl ifanc gael cyfleoedd hefyd i ddatblygu eu sgiliau rhyngbersonol gan gynnwys datrys gwrthdaro, a rheoli dicter, rhwystredigaeth a theimladau ymosodol yn effeithiol.

**Argymhellion**

- **Dylai fod rhaglenni gwrthfwlio ym mhob ysgol, cynradd ac uwchradd.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn orfodol i ysgolion ddilyn eu polisïau gwrthfwlio.**
- **Dylai fod gan bob ysgol lysgenhadon gwrthfwlio a ddylai redeg cyfarfodydd gwrthfwlio gyda chymorth gan athrawon. Dylid cynnal sesiynau cadw cyswllt yn ystod amser cinio a chasglu syniadau gan blant mewn blychau mynegi pryderon.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym yn disgwyl i ysgolion fabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch tuag at bob math o fwlio. Ein ffocws yw bod ysgolion yn gweithio tuag at ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol sy'n seiliedig ar barch ymhlith plant a phobl ifanc.

2. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob ysgol fod â pholisi ymddygiad ar gyfer yr ysgol a ddylai gynnwys mesurau sy'n anelu at atal pob math o fwlio. Dylai strategaethau gwrthfwlio effeithiol fod yn ganolog i bolisïau ymddygiad a chael eu datblygu a'u rhoi ar waith gan bawb yn yr ysgol, gan gynnwys y disgyblion. Mae hyn yn galluogi pob ysgol i deilwra'i pholisi ymddygiad fel ei bod yn briodol ac yn ymatebol i amgylchiadau lleol. Cyfrifoldeb ysgolion yw penderfynu sut orau i weithredu eu polisïau ymddygiad eu hunain i fynd i'r afael ag ymddygiad bwlio. Mae llawer o enghreifftiau da o'r modd y mae sefydliadau, gan gynnwys ysgolion, yn rhannu arfer da o ran polisïau gwrthfwlio, megis trwy'r adnoddau a rennir sydd ar gael ar wefan Hwb.

3. Mae polisïau ymddygiad mewn ysgolion yn cael eu harolygu gan Estyn. Byddan nhw'n gwirio bod polisi gan yr ysgol, ac yn bwrw golwg fanylach ar y modd y mae strategaethau gwrthfwlio'n cael eu gweithredu os ydyn nhw wedi cael eu gwneud yn ymwybodol bod problem bwlio yn yr ysgol – er enghraifft, o'r holiaduron a roddir i ddisgyblion, cyfweliadau gyda disgyblion ac adborth o gyfarfodydd gyda rhieni. Mae Estyn yn gofyn i ddisgyblion a ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a bydd yn gwirio bod disgyblion yn gwybod pa weithdrefnau y mae angen iddyn nhw eu dilyn os ydyn nhw'n cael eu bwlio. Mae hyn yn galluogi Estyn i wirio sut y mae'r polisi'n cael ei weithredu.

**Argymhellion**

- **(Dylai fod) mwy o addysg i athrawon, disgyblion a rhieni am fwlio, gan gynnwys troseddau atgasedd yn erbyn grwpiau a amddiffynnir a sut mae rhoi stop ar fwlio.**

- **Dylai fod sancsiynau llymach ar gyfer pobl sy'n bwlio plant a phobl ifanc.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym yn trin pob achos o fwlio fel mater eithriadol o ddifrifol ac rydym yn disgwyl i ysgolion wneud yr un peth, gan ei gwneud yn glir na fydd ymddygiad o'r fath yn cael ei oddef. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion ac Estyn i sicrhau bod y neges wrthfwlio'n cael ei rhoi ar waith.

2. Gall fod gan fwlis nifer o anghenion sydd heb gael eu diwallu a gall eu rhwystredigaeth ddod i'r amlwg fel ymddygiad ymosodol. Am y rheswm hwn rydym yn mynd i'r afael â bwlio yng nghyd-destun ehangach rheoli ymddygiad a datblygiad emosiynol. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth am arfer gorau i helpu ysgolion i reoli ymddygiad gwael, megis y Llawlyfrau Rheoli Ymddygiad a chanllawiau ar grwpiau anogaeth. Penaethiaid ysgolion ddylai bennu mesurau mewn perthynas ag ymddygiad a disgyblaeth fel rhan o bolisi ymddygiad yr ysgol, gan weithredu yn unol â datganiad o egwyddorion y corff llywodraethu.

3. Rydym yn darparu cyllid ar gyfer 'Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan' sy'n galluogi Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu i gynorthwyo ysgolion i leihau troseddau ac anhrefn trwy addysg a hybu dinasyddiaeth gadarnhaol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys plismona cefnogol ysgolion sy'n cynorthwyo ysgolion, athrawon a disgyblion i fynd i'r afael â bwlio ar sail casineb a seiberfwlio. Mae holl Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu yn cael eu hyfforddi i gyflwyno dulliau Ymarfer Adferol i alluogi pobl ifanc i wneud iawn am y niwed a achoswyd trwy fwlio ar sail casineb a seiberfwlio. Mae gan y Rhaglen wefan hefyd, www.schoolbeat.org, sy'n darparu adnoddau a gweithgareddau rhyngweithiol ar gyfer disgyblion, athrawon a rhieni ar atal troseddau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei darparu'n cynnwys cyngor a chyfeirio at asiantaethau cymorth a chefnogaeth. Yn 2014-15 fe ymgysylltodd y rhaglen Ysgolion â 3,259 o blant a phobl ifanc gan weithio ar draws ardal pob un o'r 4 Heddlu ar destunau sy'n ymwneud yn benodol â bwlio ar draws ystod o oedrannau a lefelau.

4. Mae Grŵp Arweinyddiaeth Gwrthfwlio Cymru Gyfan yn datblygu meysydd arfer da i ysgolion ac Awdurdodau Lleol er mwyn rhoi anogaeth ar gyfer cymorth strategol a chydweithio i fynd i'r afael â

bwlio. Mae hyn yn cynnwys archwilio arferion hysbysu a’r gwahaniaethau ymhlith bwlio, troseddau casineb a digwyddiadau. Rydym yn hapus iawn i fod yn gweithio gyda Cymru Ifanc, trwy Grŵp Arweinyddiaeth Gwrthfwlio Cymru Gyfan, i gefnogi eu Rhwydwaith Gwrthfwlio nhw hefyd.

5. Mae Grŵp Arweinyddiaeth Gwrthfwlio Cymru Gyfan yn darparu llwyfan ar gyfer dull strategol o fynd i’r afael â bwlio yn erbyn plant a phobl ifanc mewn ysgolion ac yn y gymuned. Mae’n rhoi cyngor ac arweiniad i Weinidogion Cymru ynghylch materion bwlio presennol a materion bwlio sy’n dod i’r amlwg; mae’n trafod, yn egluro, yn gwneud sylwadau ac yn gwneud argymhellion ar bolisïau a chanllawiau sy’n gysylltiedig â bwlio; mae’n adnabod materion, risgiau a bylchau o ran gweithredu polisïau gwrthfwlio; ac mae’n cynyddu i’r eithaf y cyfleoedd ar gyfer partneriaethau a rhannu gwybodaeth.

6. Dan y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant (2014 – 17), fe roddon ni gyllid i ‘Taking Flight Theatre Company’ sydd wedi datblygu cynhyrchiad theatr i fynd i’r afael â throseddau casineb ar sail anabledd – **Real Human Being**. Prosiect Theatr Fforwm yw hwn sy’n mynd i’r afael â Throseddau Casineb ar sail Anabledd ac yn annog pobl i gydnabod digwyddiadau a hysbysu yn eu cylch. Nod y prosiect yw mynd i’r afael â Throseddau Casineb ar sail Anabledd trwy leihau nifer y digwyddiadau, cynyddu cyfraddau hysbysu a cheisio addysgu pobl ifanc am yr effaith ar fywydau pobl anabl. Mae’n mynd ar daith gan berfformio i ddisgyblion Blwyddyn 9 mewn ysgolion ledled Cymru bob hydref. Mae’r prosiect yn aros gyda’r un grŵp o ddisgyblion trwy gydol y dydd wrth iddyn nhw wylio’r ddrama cyn cymryd rhan wedyn mewn gweithgareddau rhyngweithiol sy’n eu hannog i fynd dan groen y materion, gan hefyd godi ymwybyddiaeth o faterion sy’n ymwneud ag anabledd a mynediad. Mae deunyddiau ategol yn cael eu darparu hefyd, gan gynnwys pecyn i ysgolion, i gynorthwyo ysgolion gyda’r prosiect ac er mwyn iddyn nhw barhau i ystyried materion troseddau casineb ar sail anabledd y tu hwnt i’r diwrnod hwnnw. Mae’r cwmni theatr wedi datblygu cynhyrchiad tebyg yn ddiweddar ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. Cynhaliodd y prosiect 32 o berfformiadau mewn ysgolion ledled Cymru gyda 2691 o blant a phobl ifanc.

# Cam-drin Domestig

**Argymhelliad**

- **Mae plant a phobl ifanc yn meddwl y dylai fod mwy o ymwybyddiaeth o'r help sydd ar gael i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym yn ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth, y cyngor a'r canllawiau sydd ar gael i'r holl blant a phobl ifanc yng Nghymru y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnyn nhw. Yn ddiweddar rydym wedi bod yn gweithio gyda Cymru Ifanc ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) Cymru i ddatblygu a chyflwyno Ymgyrch Pobl Ifanc, gan sicrhau y byddai eu hymwneud â'r gwaith o'i ddatblygu a'r iaith a ddefnyddir yn annog pobl ifanc i ymgysylltu.

2. Rydym hefyd yn rhoi cymorth i Hafan Cymru gyflawni'r prosiect 'Sbectrwm' ledled Cymru. Rhaglen ataliol wobrwyol a gyflawnir gan Hafan Cymru mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru yw Prosiect Sbectrwm, ac mae'n dysgu plant am berthnasoedd iach, cam-drin a'i ganlyniadau a ble i geisio cymorth. Mae pob sesiwn yn briodol i oedran y disgyblion ac maen nhw wedi'u bwriadu i hybu trafodaeth heb gymell disgyblion i ddatgelu profiadau personol. Mae pob sesiwn yn cynnwys trafod ble y gall pobl ifanc fynd i gael cymorth a chefnogaeth os ydyn nhw'n teimlo bod angen iddyn nhw wneud hynny.

3. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o gam-drin ymhlith plant a phobl ifanc, mae Prosiect Sbectrwm yn cyflwyno sesiynau i athrawon a staff cymorth dysgu, gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sydd â diddordeb. Rydym yn ymwybodol mai dim ond trwy godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc a sicrhau eu bod nhw'n deall beth yw perthynas iach, y byddwn yn rhoi terfyn yn y pen draw ar drais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol a dyma pam fod ein gwaith ym myd addysg yn allweddol.

4. Trwy'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), rydym yn y broses o ganlyn arni â rhaglen eang o waith sy'n gysylltiedig ag addysg. Mae elfennau ohoni'n cynnwys:

- Cynhadledd Cadw Dysgwyr yn Ddiogel – Busnes i Bawb – sy’n gynhadledd Cymru gyfan ar ddiogelu ym myd addysg sy’n canolbwyntio ar drais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cafodd y gynhadledd hon ei chynnal ar 3 Rhagfyr.

- Datblygu pecyn cymorth i helpu ysgolion i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau a pherthnasoedd iach sy’n seiliedig ar barch o’r enw Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan, a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar.

- Adolygiad o adnoddau addysgu ar berthnasoedd iach i sicrhau bod gan ysgolion ddeunyddiau o safon i gefnogi unigolion sy’n profi’r materion hyn.

5. Yn ogystal â hyn, rydym yn rhoi cymorth i ddarparu’r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn sy’n darparu ymateb 24 awr y dydd i unrhyw un sy’n ddioddefwr cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod. Mae gwefan Byw Heb Ofn Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu adnodd hawdd i’w ddefnyddio ar gyfer dioddefwyr, goroeswyr, teulu a ffrindiau yn ogystal â gweithwyr proffesiynol.

# Camddefnyddio Sylweddau

**Argymhelliad**

- **Gwell addysg i blant a phobl ifanc ar alcohol, cyffuriau a thybaco, nid dim ond 'Peidiwch â gneud e' ond gwersi go iawn sy'n cynnwys effeithiau hir dymor cyffuriau; a gallu trafod a dadlau ynghylch defnydd ohonynt.**
- **Mae angen yr wybodaeth gywir, ddiduedd ddiweddaraf ar blant a phobl ifanc, wedi'i chyflwyno gan bobl sy'n gwybod am gyffuriau ac yn eu deall, fel gweithwyr ieuenctid.**
- **Mae angen ffordd ddifyr, ryngweithiol o ddysgu pobl ifanc am effeithiau cyffuriau ac alcohol. Dyw dweud 'Bydd yn eich lladd chi' ddim yn ddigon da.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at addysg a gwybodaeth o safon uchel am gyffuriau ac alcohol. Mae 'Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu' yn cael eu hariannu i gyflwyno gwersi ar gamddefnyddio alcohol a chyffuriau yn ogystal â gwersi ar nifer o'n hagendâu eraill gan gynnwys diogelwch tân a chymunedol fel rhan o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan. Mae Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, a honno'n wybodaeth ddiduedd, oherwydd yn eu rolau o ddydd i ddydd mae ganddyn nhw brofiad o ymdrin â chanlyniadau cyffuriau ac alcohol ar bob lefel.

2. Cafodd gwersi camddefnyddio sylweddau eu darparu ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru y llynedd i blant o bob oedran o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, 3 a 4. Nid 'Peidiwch â gneud e' yw ffocws eu gwersi byth. Yn hytrach, mae risgiau a chanlyniadau camddefnyddio sylweddau ac arbrofi â sylweddau'n cael eu trafod o safbwynt y sefyllfa gyfreithiol ac effeithiau personol – yn y tymor hir a'r tymor byr.

3. Mae'n dda gennym nodi bod 67% o'r ymatebwyr i'n harolwg yn teimlo bod gan bobl ifanc fynediad at wybodaeth eglur a ffeithiol am gyffuriau ac alcohol, gan gynnwys tybaco.

# Hawliau Plant a Phobl Ifanc

**Argymhellion**

- **Mae mwyafrif llethol o blant a phobl ifanc yn credu y dylai fod ganddynt eu llais parhaol, democrataidd eu hunain i gael mynediad at Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, i'w galluogi i gyfranogi yn y broses o lunio polisi'r llywodraeth ar bynciau y mae ganddyn nhw farn arnynt.**
- **Maent am gael fforwm lle byddai oedolion yn gwrando arnyn nhw.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau ei chysylltiadau â phobl ifanc, trwy Cymru Ifanc, a chael hyd i ffyrdd gwell o roi gwybod i bobl ifanc am eu hawliau.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym ni fel Llywodraeth yn gyfrifol am gynnig a gweithredu polisïau a deddfau a fyddai'n gymwys yng Nghymru ac sydd wedi'u bwriadu i wella bywydau pawb yng Nghymru. Wrth wneud hynny, rydym yn gwbl ymrwymedig i wrando ar farn pobl Cymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, rydym yn rhoi cyfanswm o £1.8 Miliwn dros 3 blynedd i Plant yng Nghymru i ddatblygu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Hawliau Plant. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o hawliau plant a hwyluso **Cymru Ifanc** i alluogi plant a phobl ifanc i gyflwyno'u materion a'u pryderon gerbron.

2. Rydym yn gefnogol iawn i nod Cymru Ifanc i gyrraedd miloedd o blant a phobl ifanc, gan weithio gyda grwpiau, fforymau a chynghorau ieuenctid presennol a newydd i gasglu eu llais ar y cyd i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisïau a rhaglenni. Rydym hefyd yn falch ei fod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd plant a phobl ifanc sydd wedi'u hymyleiddio, sy'n swil, yn ddifreintiedig, yn ddihyder, neu sydd ar wahân, gan eu galluogi nhw hefyd i fod â llais.

3. Yn y chwe mis cyntaf, fe alluogodd Cymru Ifanc dros 418 o blant a phobl ifanc i fynegi eu barn yn uniongyrchol trwy ymgynghori ac ymgysylltu wyneb yn wyneb. Fe hwylusodd gyfarfodydd rhwng pobl ifanc a Gweinidogion Cymru. Hefyd mae ymweliadau â gwefan Cymru Ifanc ac ymatebion i rybuddion ar y cyfryngau cymdeithasol wedi codi'n gyson. Er enghraifft, cafwyd 177,378 o ymweliadau â thudalennau Young Wales a 22,162 â thudalennau Cymru Ifanc yn ystod y flwyddyn

hyd yma. Byddem yn hapus iawn i gryfhau ein cysylltiadau â Cymru Ifanc a byddai'n dda gennym gwrdd â chynrychiolwyr i ddatblygu hyn.

4. Mae disgwyl hefyd i Awdurdodau Lleol fod â Fforwm Ieuenctid lleol a gwybodaeth a mecanweithiau i blant a phobl ifanc wybod sut i gyfranogi a chwarae rhan os byddan nhw'n dymuno. Mae Gweinidogion wedi cyhoeddi canllawiau eglur o ran beth ddylid ei wneud a sut y dylid ei wneud.

5. Hefyd mae angen ystyried y datblygiadau cadarnhaol ym maes ymgysylltu ieuenctid sy'n cael eu gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym yn falch iawn gyda'u hymrwymiad cyhoeddus i alluogi pobl ifanc i ddwyn Llywodraeth Cymru ac eraill i gyfrif, a lleisio'u barn gyda'r farn honno'n cael ei chlywed a'i gwerthfawrogi gan y rhai sydd wrth graidd Democratiaeth yng Nghymru.

# Yr Amgylchedd

**Argymhellion**

- **Dylai fod mwy o finiau sbwriel, mwy o finiau baw cŵn, bagiau baw cŵn mewn parciau ac ar deithiau.**
- **Mwy o finiau sbwriel o gwmpas a CCTV i ddirwyo pobl sy'n taflu eu sbwriel ar y llawr neu allan o ffenestri ceir.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym hefyd am i bawb gadw eu pentrefi, eu trefi, eu dinasoedd a chefn gwlad yn lân a heb sbwriel a baw cŵn. Un ffordd yr ydym yn gwneud hyn yw trwy ddarparu arian ar gyfer Cynghorau yng Nghymru sy'n codi sbwriel ac yn gallu prynu pethau fel biniau i bobl eu defnyddio. Gellir defnyddio biniau arferol ar gyfer sbwriel a baw cŵn.

2. Rydym am i berchnogion cŵn ddod â'u bagiau baw cŵn eu hunain gyda nhw a glanhau ar ôl eu hanifeiliaid bob amser. Gall perchnogion cŵn gael dirwy os ydyn nhw'n cael eu dal yn gadael i'w cŵn adael baw ar eu holau.

3. Rydym hefyd yn rhoi arian i grwpiau cymunedol a Cadwch Gymru'n Daclus er mwyn iddyn nhw allu helpu pobl i wneud eu hardal yn lanach, yn ddiogelach ac yn daclusach. Gall yr arian a roddir i Cadwch Gymru'n Daclus gael ei ddefnyddio ar gyfer ymgyrchoedd i atal pob math o sbwriel, sy'n gofyn i bobl roi eu sbwriel yn y bin, yn hytrach na'i ollwng ar y stryd neu ei daflu allan o ffenestri ceir. Os yw pobl yn cael eu dal yn gollwng sbwriel gallan nhw gael dirwy hyd at £150.

# Cludiant

**<u>Argymhelliad</u>**

- **Mwy o gludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.**

**<u>Ymateb Llywodraeth Cymru</u>**

***Trenau***

1. Mae'r mwyafrif o wasanaethau rheilffordd yng Nghymru'n cael eu darparu dan fasnachfraint Cymru a'r Gororau, sy'n cael ei rheoli gennym ni. Rydym yn darparu tua £180 miliwn y flwyddyn ar gyfer y gwasanaethau trenau y mae'n eu darparu. Enillodd Trenau Arriva Cymru y contract 15 mlynedd ar gyfer y fasnachfraint yn 2003.

2. Rydym wedi ychwanegu nifer o wasanaethau ychwanegol at y fasnachfraint dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys sawl un mewn ardaloedd gwledig megis cynyddu amlder trenau ar Linellau Abergwaun, y Cambrian a Calon Cymru.

3. Rydym wedi dechrau cynllunio ar gyfer y fasnachfraint nesaf sydd i fod i ddechrau yn 2018. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn casglu barn nifer fawr o wahanol grwpiau, gan gynnwys pobl ifanc, i helpu i oleuo'r cynlluniau hyn.

***Bysiau***

4. Mae tua thri chwarter yr holl wasanaethau bysiau ledled Cymru'n cael eu darparu gan gwmnïau masnachol yn ôl eu dadansoddiad nhw eu hunain o alw, cost a phroffidioldeb. Mae'n bwysig bod gan weithredwyr bysiau hyblygrwydd i ymateb i bwysau masnachol.

5. Mae gweddill y gwasanaethau bysiau a chludiant cymunedol yn cael eu contractio (â chymhorthdal) gan Awdurdodau Lleol naill ai gan ddefnyddio eu ffynonellau cyllid nhw eu hunain neu gan ddefnyddio arian yr ydym ni'n ei ddarparu dan ein Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau. Mae pob Awdurdod Lleol yn penderfynu pa wasanaethau bysiau neu gludiant cymunedol y maen nhw'n dymuno'u cefnogi yn seiliedig ar eu hasesiadau o amgylchiadau a blaenoriaethau lleol.

6. Mae'r Gweinidog Trafnidiaeth wedi darparu £25m ar gyfer Awdurdodau Lleol yn 2015-16 (yr un faint ag yn 2013-14 a 2014-15) dan y Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau i'w helpu i ddarparu cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau bysiau a chludiant cymunedol sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol, gan ategu eu gwariant ar hyn o'u hadnoddau eu hunain.

**Argymhelliad**

- **Talu am gynhyrchu trafnidiaeth a ffordd o fyw sy'n fwy eco-gyfeillgar.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu ystod eang o weithgareddau sy'n helpu pobl yng Nghymru i deithio mewn ffordd eco-gyfeillgar a byw bywyd egnïol. Gyda'r Ddeddf Teithio Llesol, rydym wedi gwneud deddf a fydd yn helpu i ysgogi mwy o bobl i gerdded a beicio'n amlach. Rydym hefyd yn rhedeg 'Teithiau Llesol', prosiect sy'n gweithio mewn ysgolion ledled Cymru i annog mwy o blant i fod â diddordeb mewn cerdded, teithio ar sgwter neu feicio i'r ysgol ac yn eu hamser hamdden, ac rydym yn talu am adeiladu llwybrau cerdded a beicio gwell ym mhob rhan o Gymru. Rydym hefyd yn gweithio i wneud bysiau a threnau'n well, er enghraifft gyda'r Metro yn Ne Ddwyrain Cymru, a fydd yn creu cysylltiadau gwell rhwng gwahanol fathau o gludiant ac yn adeiladu gorsafoedd a llwybrau newydd.

2. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu rhestru yn y Ddeddf feddwl yn fwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Bydd y ddeddf newydd hon yn golygu, am y tro cyntaf, bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n cael eu rhestru yn y Ddeddf wneud popeth y maen nhw'n ei wneud mewn ffordd gynaliadwy. Cymerodd Cymru gam beiddgar pan gyflwynon ni'r ddeddf newydd hon, ond mae mabwysiadu'r Nodau Byd-eang gan y Cenhedloedd Unedig yn tanlinellu'r ffaith nad ydym yn gweithredu ar ein pen ein hunain ac yn gallu darparu enghraifft o'r hyn y mae'n bosibl ei wneud.

3. Cynllun rhyngwladol gwirfoddol yw'r rhaglen Eco-Sgolion sy'n gweithredu mewn dros 60 o wledydd ac sydd wedi'i drwyddedu gan y Sefydliad dros Addysg Amgylcheddol (FEE). Rydym ni'n ariannu Cadwch Gymru'n Daclus i weithredu'r rhaglen yng Nghymru ac mae 95% o'r ysgolion cynradd ac uwchradd wedi'u cofrestru ar y rhaglen, sy'n un o'r cyfraddau cyfranogi uchaf yn y byd. Mae'r rhaglen yn cael ei harwain gan blant ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn prosiectau ymarferol ar wyth testun i ddysgu am gludiant; ynni; dŵr; lleihau gwastraff; byw'n iach; sbwriel; bioamrywiaeth a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae dros 800 o ysgolion yng Nghymru'n meddu ar wobr glodfawr y Faner Werdd. Cafodd rôl flaenllaw Cymru yn y mudiad Eco-Sgolion ei chydnabod ym mis Rhagfyr 2014 pan gynhaliwyd cyfarfod rhyngwladol ar gyfer yr holl weithredwyr Eco-Sgolion yng Nghaerdydd i nodi 20fed pen-blwydd y rhaglen.

**Argymhelliad**

- **Rydym yn pryderu am y gostyngiad yn y cludiant noddedig i'r ysgol sy'n cael ei gyflwyno gan gynghorau ledled Cymru.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu teithio ar gyfer dysgwyr dan reolau sydd wedi'u nodi mewn cyfraith. Mae cyllid yn cael ei ddarparu ar eu cyfer i wneud hynny.

# Chwarae a Hamdden

**Argymhellion**

- **Ariannu mwy o glybiau ieuenctid a gweithwyr annibynnol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym yn cydnabod bod gwaith ieuenctid o safon yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc – boed trwy'r profiadau difyr neu'r cymorth y mae'n eu darparu. Rydym ninnau'n pryderu ynghylch darpariaeth gwaith ieuenctid ledled Cymru. Yn anffodus mae llai o arian ar gael inni, felly mae angen inni feddwl yn greadigol i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu parhau i weithio gyda gweithwyr ieuenctid.

2. Ym mis Rhagfyr y llynedd sefydlwyd y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid i roi cyngor inni ac i Weinidogion Cymru ynghylch ffyrdd o gefnogi gwaith ieuenctid ledled Cymru. Mae pedwar o bobl ifanc yn aelodau o'r grŵp yma ac mae eu barn a'u profiadau'n bwysig iawn.

3. Mae'r grŵp yma wedi ystyried ffyrdd eraill y gallen ni redeg gwaith ieuenctid ledled Cymru. Yn ddiweddar, fe wnaethon nhw argymell y dylai cadeirydd annibynnol weithio gydag is-grŵp bach o fewn y grŵp yma i ystyried beth ddylai fod gan bob ardal yng Nghymru fel yr arlwy graidd sylfaenol o ran gwaith ieuenctid. Bydd y grŵp yma'n siarad gyda phobl ifanc am hyn cyn bo hir hefyd.

4. Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd o gryfhau a chynyddu'r cysylltiadau rhwng gweithwyr ieuenctid, ysgolion a cholegau.

5. Ym mis Hydref fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg hysbysu Aelodau Cynulliad (Datganiad Llafar yw'r enw ar hyn) am bwysigrwydd gwaith ieuenctid a'r gwasanaeth ieuenctid i bobl ifanc Cymru. Fe eglurodd y Dirprwy Weinidog hefyd beth yw ei bwriadau ar gyfer sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru'n gallu cyfranogi mewn gwaith ieuenctid a chael mynediad at waith ieuenctid ble bynnag y maen nhw'n byw yng Nghymru. Dyma ddolen i'r Datganiad Llafar a dyma ddolen i'r cofnod ysgrifenedig o eiriau'r Gweinidog: trawsgrifiad.

6. Er mwyn aros gyfuwch â datblygiadau a'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gwaith ieuenctid cliciwch ar y ddolen ganlynol: Llywodraeth Cymru | Gwaith Ieuenctid

**Argymhelliad**

- **Dylai plant gael y cyfle i chwarae mwy.**
- **Dylai cynghorau, rhieni, clybiau cymunedol ac athrawon greu mwy o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored ac ymuno mewn gweithgareddau.**
- **Diffyg cyfleoedd hamdden i blant a phobl ifanc.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym yn rhoi gwerth mawr ar chwarae ac yn ystyried ei fod yn ganolog i hapusrwydd, iechyd a lles plant. Rydym yn ymrwymedig i wella cyfleoedd i'r holl blant a phobl ifanc chwarae'n ddiogel, ac yn enwedig i gefnogi mynediad gwell at gyfleoedd chwarae ar gyfer plant anabl.

2. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau i blant y mae chwarae'n eu darparu, rydym wedi gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu ar gyfer cyfleoedd chwarae digonol yn eu hardaloedd a sicrhau'r cyfleoedd hynny. Fel rhan o'r asesiad mae angen iddyn nhw ystyried barn plant o ran pa ddarpariaeth chwarae a hamdden y maen nhw'n dymuno'i chael yn eu hardaloedd; sut y bydden nhw'n hoffi i'w cymdogaethau gael eu trefnu i ddarparu'r cyfleoedd chwarae y maen nhw'n dymuno'u cael; a pha rwystrau sy'n eu hatal rhag chwarae. Mae'r Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda'u partneriaid i gynnal eu hail Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ystod 2015 – 16 a bydd y rhain yn cael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2016. Byddan nhw hefyd yn datblygu Cynlluniau Gweithredu Cyfleoedd Chwarae i gynyddu a gwella cyfleoedd chwarae.

3. Rydym yn ariannu Groundworks Wales dan y Prosiect Chwarae Cynaliadwy i ddarparu gweithgareddau chwarae ar gyfer plant yn eu cymunedau. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Chwarae Cymru i gynhyrchu pecyn cymorth i helpu penaethiaid ysgolion, llywodraethwyr a sefydliadau lleol i gydweithio i ystyried trefnu bod tiroedd ysgolion ar gael i blant lleol chwarae arnyn nhw, y tu allan i oriau addysgu.

   http://www.chwaraecymru.org.uk/cym/pecyncymorthysgolion

# Iechyd

**Argymhelliad**

- **Mwy o feddygfeydd mewn ardaloedd mwy gwledig fel pentrefi, a gwell oriau agor.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

***Anghenion Iechyd Lleol a Recriwtio Meddygon Teulu mewn Ardaloedd Gwledig***

*1.* Mae anghenion iechyd lleol y boblogaeth yn cael sylw trwy ddatblygu cynlluniau cyflawni lleol sy'n cael eu cynhyrchu gan fyrddau iechyd yng Nghymru. Mae byrddau iechyd yn wynebu her o ran poblogaeth sy'n heneiddio â mwy o anghenion iechyd cymhleth a gweithlu sy'n heneiddio. Mae sawl rhan o'r DU yn wynebu'r un heriau ac mae prinder meddygon teulu. Oherwydd hyn, mae'n gallu bod yn anodd recriwtio meddygon teulu i weithio mewn ardaloedd gwledig. Rydym yn gweithio gyda GIG Cymru a phartneriaid eraill ar ystod o gamau gweithredu i gefnogi a datblygu'r gweithlu gofal sylfaenol yng Nghymru, gan gynnwys recriwtio meddygon teulu. Mae'r camau gweithredu hyn yn cael eu nodi yn y cynllun ar gyfer y gweithlu gofal sylfaenol a gafodd ei lansio gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 17 Gorffennaf.
http://gov.wales/topics/health/nhswales/plans/care/?lang=cy .

2. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i sefydlogi sectorau allweddol o'r gweithlu presennol, gan gynnwys meddygon teulu. Ar y cyfan mae niferoedd y meddygon teulu yng Nghymru wedi cynyddu 10.5% rhwng 2004 a 2014. Mae mwy o feddygon teulu'n gweithio yng Nghymru heddiw nag oedd 10 mlynedd yn ôl, gyda thros 2,000 o feddygon teulu'n gwasanaethu cymunedau ledled Cymru gyfan.

**3.** Hefyd, mae byrddau iechyd yn cydweithio'n agos gyda meddygfeydd teulu i weld a ydyn nhw mewn perygl o gau neu o orfod gwneud toriadau i wasanaethau o fewn y 12 mis nesaf. Os felly, gall meddygfa deulu wneud cais i'w fwrdd am gymorth. Bydd unrhyw gymorth y mae meddygfa deulu'n ei gael yn amodol ar asesiad lleol, a gall gynnwys cymorth rheoli a chymorth gyda llwyth gwaith, er enghraifft gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Gall byrddau iechyd ystyried cymorth ariannol hefyd os oes angen.

***Mynediad***

4. Mae'r Arolwg Cenedlaethol diweddar ar gyfer Cymru yn dangos bod naw allan o bob deg person yng Nghymru'n dal i fod yn fodlon ar y gofal y maen nhw'n ei gael gan eu meddyg teulu. Hefyd, mae ymchwil i fynediad at wasanaethau meddygon teulu a gafodd ei gyhoeddi yn 2014 yn dangos gwelliant pellach, gyda thua phedwar ym mhob pum meddygfa deulu bellach ar agor am oriau craidd dyddiol ac yn cynnig apwyntiadau unrhyw bryd rhwng 5.00pm a 6.30pm.

5. Er mai ein polisi ni yw bod byrddau iechyd yn darparu apwyntiadau gyda'r nos ac ar benwythnosau lle profwyd fod angen rhesymol, rydym yn derbyn bod angen gwneud mwy ac mae gwella mynediad at wasanaethau meddygon teulu'n un o'n hymrwymiadau. Rydym yn cydweithio'n agos gyda meddygon teulu i ganfod ffyrdd o wella mynediad at wasanaethau meddygon teulu, yn enwedig gwella profiad cleifion o ran cael mynediad at wasanaethau yn ystod oriau craidd a'r pwynt cyswllt cyntaf. Mae hyn hefyd yn cynnwys mynediad at apwyntiadau gyda'r nos ac ar y penwythnos.

6. Mae mynediad ar ddydd Sadwrn a dydd Sul at wasanaethau meddygon teulu heb eu trefnu'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd trwy wasanaethau 'y tu allan i oriau' meddygon teulu. Bydd mynediad gwell at wasanaethau meddygon teulu, lle y bo'n briodol, yn cael ei ddarparu trwy drefniant lle mae grwpiau o feddygon teulu'n cydweithio, gan gynnwys y potensial ar gyfer mynediad at wasanaethau meddygon teulu ar fore Sadwrn. Bydd hyn yn cynyddu i'r eithaf y capasiti newydd i wella mynediad at wasanaethau meddygon teulu sy'n cael ei gyflwyno trwy fuddsoddiadau ar gyfer mwy o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, fel fferyllwyr, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd. Byddwn yn parhau i ddarparu mynediad at wasanaethau meddygon teulu i adlewyrchu anghenion lleol.

7. Ceir ymrwymiad o ran y contract meddygon teulu ar gyfer 2016/17 hefyd i ystyried ei gwneud yn ofyniad cytundebol i feddygfeydd teulu gynnig mwy o apwyntiadau meddygon teulu ar-lein gan ddefnyddio *Fy Iechyd Ar-lein* (gwefan sy'n galluogi cleifion i wneud pethau fel bwcio apwyntiadau ar-lein), ac rydym yn ceisio gwella gwasanaethau 'y tu allan i oriau' meddygon teulu trwy'r gwelliannau i'r gwasanaeth ffôn 111. Byddwn yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd a darparwyr gwasanaethau i sicrhau bod mynediad at wasanaethau meddygon teulu'n adlewyrchu anghenion lleol.

**Argymhelliad**

- **Cyflwyno treth ar fwydydd afiach a'i gwneud hi'n anoddach cael hyd i fwyd sydyn.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

***Treth ar fwydydd afiach***

1. Yn ddiweddar dywedodd y Prif Swyddog Meddygol y gallai treth wedi'i thargedu helpu i leihau gordewdra ymhlith plant ynghyd ag opsiynau eraill trwy ddeddfau newydd. Mae Deddf Cymru 2014 yn golygu bod potensial bellach i Gymru gasglu ei threthi ei hun, er na fyddai'r broses yn syml, ac y byddai'n rhaid iddi ystyried materion megis yr effaith ar fusnesau, cyfraith Ewropeaidd, a materion trawsffiniol gyda Lloegr. Ond yn bwysicaf oll, byddai angen inni ystyried a fyddai treth yn cyflawni'r hyn y byddem am iddi ei chyflawni, a heb ganlyniadau dieisiau.

2. Mae'r alwad fwyaf uchel ei phroffil a gafwyd am drethi ar fwyd yn ymwneud â siwgr, neu yn benodol siwgr mewn diodydd byrlymog. Rydym wedi derbyn argymhellion corff arbenigol yn ddiweddar i haneru'r lefelau siwgr sy'n cael eu hargymell fel rhan o ddiet rhywun. Fe wnaeth y corff arbenigol argymell yn benodol hefyd y dylai plant fod yn yfed llai o ddiodydd byrlymog siwgraidd.

3. Mae swm y dystiolaeth sy'n ategu'r ddadl dros dreth ar siwgr yn tyfu ond nid yw'n eglur eto pa mor effeithiol fyddai yn yr hirdymor. Bu'n rhaid i Ddenmarc roi'r gorau i'w threth ar fraster dirlawn oherwydd yr effaith ar ei heconomi. Yn bwysicach byth, nid oes llawer o dystiolaeth i ddangos a yw cyflwyno trethi ar fwyd afiach yn newid ymddygiad pobl yn gadarnhaol yn yr hirdymor. Efallai mai dim ond gwneud iddyn nhw brynu dewisiadau rhatach y mae neu wneud iddyn nhw gwtogi ar rannau eraill (ac iachach o bosibl) o'u diet i barhau i fwyta'r cynnyrch llai iach sy'n cael ei drethu. Hefyd gallai unrhyw dreth effeithio'n annheg ar y rhai ar incwm isel yn fwy nag ar y rhai ag incwm uwch.

4. Yn y pen draw, byddai dull unedig ledled y DU (yn hytrach na dull yng Nghymru yn unig) ar gyfer unrhyw dreth ar fwyd yn fwy effeithiol, gan achosi llai o gymhlethdodau a lleihau'r risg o ganlyniadau dieisiau. Mae Gweinidog Iechyd Cymru wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd yn Lloegr i alw am weithredu cryfach ar siwgr ar lefel y DU.

***Bwyd brys***

5. Mae Bwyd Brys yn darparu mynediad rhwydd at fwyd sy'n rhad, yn flasus ac yn rhoi llawer o egni, sy'n aml yn brin o werth maethol. Nid oes llawer o ymchwil wedi cael ei gwneud i'r cyswllt rhwng y bwyd sydd ar gael a gordewdra. Fodd bynnag, ceir cyswllt eglur ag amddifadedd (sy'n cynnwys tlodi), gan fod mwy o safleoedd gwerthu bwyd brys yn yr ardaloedd mwyaf amddifadus.

6. Er mwyn cyfyngu ar nifer y safleoedd bwyd brys, gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru gydweithio'n agosach â'r system gynllunio i ddylanwadu ar y prosesau cynllunio presennol mewn Awdurdodau Lleol.

7. Mae rhai Awdurdodau Lleol hefyd yn ceisio gweithio gyda safleoedd bwyd brys a busnesau bwyd eraill yn eu hardaloedd i wneud y bwyd a weinir yn iachach, gan ddefnyddio Gwobrau Dewisiadau Iach Cymru. Mae tair haen i'r wobr ac mae'n gwobrwyo busnesau am leihau lefel y siwgr, y braster dirlawn a'r halen a chynyddu ffrwythau, llysiau a ffibr, trwy ystod eang o gamau gweithredu.

**Argymhelliad**

- **Trefnu clybiau chwaraeon am ddim, wedi'u hariannu gan y Llywodraeth, fel bod pawb yn gallu cyfranogi mewn ymarfer corff**.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

1. Rydym yn awyddus iawn i bobl ifanc fyw bywydau iachach a bod yn fwy egnïol yn gorfforol a thrwy Chwaraeon Cymru rydym yn helpu i ariannu nifer o raglenni sydd wedi'u bwriadu i annog plant a phobl ifanc i gyfranogi'n fwy mewn chwaraeon.

2. Ceir tua 5,000 o glybiau chwaraeon sy'n gysylltiedig â'r cyrff llywodraethu chwaraeon amrywiol yng Nghymru felly mae amrywiaeth eang o ddewis o glybiau chwaraeon wedi'u trefnu y gall pobl ifanc ddod yn rhan ohonynt ac mewn llawer o'r clybiau hyn gall plant gymryd rhan yn rhad ac am ddim neu am gost gymharol fach.